



Adroddiad ar arolygiad dirybudd o

**CEF Caerdydd**

gan Brif Arolygydd Carchardai EF

29 Ionawr – 05 Chwefror 2024



# Cynnwys

## Cyflwyniad 3

|                                                                           |    |
|---------------------------------------------------------------------------|----|
| Beth sydd angen ei wella yn CEF Caerdydd .....                            | 5  |
| Gwybodaeth am CEF Caerdydd.....                                           | 7  |
| Adran 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau .....                              | 9  |
| Adran 2 Arweinyddiaeth .....                                              | 12 |
| Adran 3 Diogelwch .....                                                   | 14 |
| Adran 4 Parch .....                                                       | 25 |
| Adran 5 Gweithgarwch pwrpasol.....                                        | 41 |
| Adran 6 Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau.....                      | 50 |
| Adran 7 Cynnydd ar argymhellion yr adroddiad arolygu llawn diwethaf ..... | 57 |
| Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau.....            | 61 |
| Atodiad II Geirfa.....                                                    | 64 |
| Atodiad III Rhagor o adnoddau .....                                       | 66 |

## Cyflwyniad

Mae Caerdydd yn garchar derbyn ac adsefydlu categori B, a oedd, adeg ein harolygiad, yn dal 737 o garcharorion. Roedd ganddo boblogaeth sylweddol ar remand a heb ddedfryd ac roedd llawer o garcharorion wedi cael eu galw'n ôl, a oedd yn cyfrannu at drosiant cyflym o'r boblogaeth. Cafodd dynion eu cadw mewn cymysgedd o fathau o lety: roedd rhai o'r rhain yn dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif, tra ychwanegwyd eraill ddiwedd y 1990au. Roedd lleoliad, cymeriad a strwythur y carchar, yn ogystal â'r heriau gweithredol yr oedd yn eu hwynebu, yn golygu bod Caerdydd yn sefydliad rheng flaen, yn derbyn dynion o'r strydoedd ac yn rheoli risg sylweddol o ddydd i ddydd.

Mae'n fwy dymunol byth, felly, i adrodd bod Caerdydd, er gwaethaf yr heriau hyn, yn gwneud yn well o lawer na sefydliadau tebyg. Y tro diwethaf i ni arolygu'r carchar oedd yn 2019, pan wnaethom adrodd am ganlyniadau a oedd yn weddol dda neu'n well ym mhob un o'n profion carchar iach. Yn yr arolygiad hwn, er gwaethaf rhywfaint o ddirywiad yn y ddarpariaeth o weithgarwch pwrpasol, roeddem o'r farn bod y canlyniadau'n weddol dda yn erbyn y pedwar prawf.

Roedd y carchar yn dawel ac yn sefydlog, ac er bod chwarter y carcharorion yn ein harolwg wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo'n anniogel, roedd Caerdydd yn perfformio'n well na charchardai tebyg yn erbyn y rhan fwyaf o fesurau diogelwch. Roedd trais, er enghraifft, yn gymharol isel ac roedd y carchar yn gweithio'n galed i'w leihau ymhellach. Ni welsom unrhyw garcharorion a oedd yn hunanynysu, ac roedd y defnydd o rym gan staff wedi gostwng. Fodd bynnag, roedd rhai eithriadau i'r tueddiadau hyn. Dywedodd deugain y cant o garcharorion wrthym eu bod yn meddwl ei bod yn hawdd cael gafael ar gyffuriau, a chadarnhawyd hyn drwy brofion gorfodol a oedd yn awgrymu bod tua chwarter yr holl garcharorion yn defnyddio cyffuriau adeg yr arolygiad. Ers 2019, roedd 10 dyn wedi lladd eu hunain yn y carchar. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth i awgrymu bod y carchar yn gweithio'n galed i wella'r sefyllfa hon, a bu gostyngiad o 38% yn nifer y dynion a oedd yn niweidio eu hunain.

Roedd perthynas dda rhwng staff a charcharorion yn sail i ddiwylliant parchus. Roedd y staff yn ymddangos yn gymwys ac yn gyson yn eu hymwneud â charcharorion, er nad oedd y rhinweddau hyn yn cael eu hadlewyrchu o ran cyflawni gwaith allweddol, a oedd yn wan. Roedd y carchar yn orlawn iawn, ond er gwaethaf oedran llawer o'r adeiladau, roedd safonau a glendid yn dda. Roedd mynediad at amwynderau a gwasanaethau yn rhesymol, ac roedd ymgynghori â charcharorion a gweithdrefnau i hwyluso gwneud iawn yn effeithiol ar y cyfan. Er bod y canlyniadau'n dal yn gymysg ar gyfer gwahanol grwpiau nodweddion gwarchodedig, nodwyd bod hyrwyddo triniaeth deg yn flaenoriaeth. Roedd gwaith i ddeall anghenion oedolion ifanc yn well yn galonogol.

Yn ystod ein hapwiriadau gwelsom fod tua 28% o garcharorion wedi'u cloi yn eu celloedd yn ystod y diwrnod gwaith. Er nad oedd amser datgloi cystal ag yn 2019, roedd yn well ac yn fwy cyson nag yn y rhan fwyaf o garchardai tebyg. Asesodd ein cydweithwyr yn Estyn fod addysg, sgiliau a darpariaeth gwaith yn

'dda'. Roedd gwaith effeithiol i hyrwyddo cysylltiadau teuluol, asesu risg o niwed, darparu ymyriadau, a rheoli dedfrydau a diogelu'r cyhoedd, ond byddai gwelliannau i waith allweddol wedi gwella'r ddarpariaeth yn sylweddol. Roedd angen gwella gwasanaethau adsefydlu a'u cydlynu'n well.

Mae hwn yn adroddiad calonogol ar garchar cymwys, sy'n gosod meincnod ar gyfer y math hwn o sefydliad. Roedd y llywodraethwr a'i huwch dîm yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn gosod safonau clir. Roedd y gefnogaeth weithredol a'r oruchwyliaeth a dderbyniwyd gan swyddogion yn cael ei adlewyrchu yn eu hyder fel grŵp a'r ymdeimlad o drefn yn y carchar. Roedd carcharorion yn cael eu trin yn barchus ac roeddent yn ymddiried yn y staff oherwydd eu bod yn ddibynadwy. Er bod llawer i'w wneud, roeddem yn gwbl hyderus bod y canlyniadau rhesymol a welwyd gennym wedi'u gwreiddio ac y gellid eu cynnal, ac y gellid cyflawni uchelgeisiau'r llywodraethwr ar gyfer gwelliant pellach.

**Charlie Taylor**

Prif Arolygydd Carchardai EF

Mawrth 2024

# Beth sydd angen ei wella yn CEF Caerdydd

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd 11 o bryderon, a dylid trin chwech ohonynt fel blaenoriaethau. Pryderon blaenoriaeth yw'r rhai sydd bwysicaf o ran gwella canlyniadau i garcharorion. Mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw ar unwaith iddynt.

Dylai arweinwyr sicrhau bod yr holl bryderon a nodir yma yn cael sylw a bod cynnydd yn cael ei olrhain drwy gynllun sy'n nodi sut a phryd y bydd y pryderon yn cael eu datrys. Dylid darparu'r cynllun i Arolygiaeth Carchardai EF.

## Pryderon blaenoriaeth

1. **Roedd deg carcharor wedi cyflawni hunanladdiad ers ein harolygiad diwethaf.** Er bod cyfradd y hunan-niweidio wedi gostwng dros yr un cyfnod, roedd y gweithredu ar argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn dilyn eu hymchwiliad i'r marwolaethau hyn yn wael.
2. **Roedd gormod o gyffuriau anghyfreithlon yn mynd i'r carchar.** Roedd ychydig o dan chwarter yr holl ganlyniadau profion cyffuriau ar hap yn bositif ac, yn ein harolwg, dywedodd llawer mwy o garcharorion nag mewn carchardai tebyg ei bod yn hawdd cael gafael ar gyffuriau anghyfreithlon.
3. **Roedd gwendidau ac anghysondebau yn y gwaith o oruchwylio a chynllunio gofal ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd hirdymor.** Roedd hyn yn creu'r risg na fyddid yn sylwi ar ddirywiad yn iechyd cleifion.
4. **Roedd gwendidau mewn addysgu a'r cwricwlwm.** Nid oedd y ddarpariaeth, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr niwroamrywiol, yn diwallu anghenion. Hefyd, nid oedd digon o addysg wyneb yn wyneb na darpariaeth alwedigaethol ar gyfer dysgwyr lefel 2 a 3.
5. **Roedd prosesau adrodd gwael o ran addysg yn golygu bod uwch arweinwyr wedi methu â nodi effaith negyddol newidiadau diweddar i'r cwricwlwm ar gyfer rhai dysgwyr.**
6. **Roedd gormod o garcharorion wedi cael eu rhyddhau'n ddigartref neu heb lety cynaliadwy.**

## Pryderon allweddol

7. **Roedd y carchar yn orlawn iawn.** Cafodd bron i ddwy ran o dair o garcharorion eu paru mewn celloedd a ddyluniwyd yn wreiddiol ar gyfer un.
8. **Nid oedd y cynllun gwaith allweddol yn gweithredu'n effeithiol.** Nid oedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cael sesiynau rheolaidd gyda swyddog a enwir.

9. **Roedd rhai agweddau ar ymarfer fferylliaeth yn is na'r safonau disgwyledig.** Nid oedd rheoli a defnyddio meddyginiaethau stoc, dosbarthu eilaidd a'r diffyg cyfyngiadau ar fannau storio cyffuriau yn cyd-fynd ag arfer da.
10. **Roedd carcharorion yn aros yn llawer rhy hir i gael triniaeth ddeintyddol frys.**
11. **Nid oedd gwerthuso addysgu a dadansoddi data wedi cael ei ddefnyddio'n ddigon da i nodi meysydd i'w gwella.**

# Gwybodaeth am CEF Caerdydd

## Tasg y carchar/sefydliad

Carchar derbyn ac adsefydlu categori B ar gyfer dynion sy'n oedolion. Mae'r carchar yn gwasanaethu'r llysoedd yn ne-ddwyrain Cymru.

## Llety arferol ardystiedig a chapasiti gweithredol (gweler Geirfa) fel yr adroddwyd gan y carchar yn ystod yr arolygiad

Carcharorion a ddaliwyd adeg ein hymweliad: 737

Capasiti arferol a ardystiwyd ar gyfer y llinell sylfaen: 534

Capasiti arferol a ardystiwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio: 530

Capasiti gweithredol: 775

## Poblogaeth y carchar

- 3,497 o garcharorion newydd yn cyrraedd bob blwyddyn (tua 291 y mis).
- 86 o garcharorion sy'n wladolion tramor
- Roedd 15% o garcharorion o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol
- 125 carcharor yn cael eu rhyddhau i'r gymuned bob mis.
- Roedd 220 o garcharorion yn derbyn cefnogaeth ar gyfer defnyddio sylweddau
- Roedd 70% o garcharorion wedi datgan eu hunain bod ganddynt broblem iechyd meddwl

## Statws y carchar (cyhoeddus neu breifat) a darparwyr allweddol

Cyhoeddus

Darparwr iechyd corfforol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Darparwr iechyd meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Darparwr triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau: Dyfodol

Darparwr fframwaith addysg mewn carchardai: Adran Plant, Addysg, Dysgu

Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cymru

Contractiwr hebrwng: GeoAmey

## Grŵp carchardai

Cymru

## Cyfarwyddwr Grŵp y Carchar

Giles Mason

## Hanes cryno

Adeiladwyd CEF Caerdydd yn 1827 ac mae'n adeilad Fictoraidd yn bennaf.

Ychwanegwyd adeiniau newydd yn 1996 ac agorwyd canolfan gofal iechyd sydd â chyfleuster cleifion mewnol 22 gwely yn 2008.

## Disgrifiad byr o unedau preswyl

Adain A: poblogaeth gyffredinol, uned byw heb sylweddau gyda chymhelliad

Adain B: poblogaeth gyffredinol, carcharorion agored i niwed, landin therapiwtig

Adain C: cynefino a'r ganolfan noson gyntaf

Adain D: lefel uwch y cynllun cymelliadau

Adain E: poblogaeth gyffredinol

Adain F: poblogaeth gyffredinol; F1: carcharorion sy'n gweithio yn y gegin a'r uned rheoli gwastraff

**Enw'r llywodraethwr a dyddiad dechrau ar ei swydd**

Amanda Corrigan, Mai 2021

**Newidiadau i lywodraethwyr ers yr arolygiad diwethaf**

Helen Ryder, 2018–2021

**Cadeirydd y Bwrdd Monitro Annibynnol**

Jacqueline Rankmore

**Dyddiad yr arolygiad diwethaf**


15–26 Gorffennaf 2019

# Adran 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

## Canlyniadau i garcharorion

- 1.1 Rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion yn erbyn pedwar prawf carchar iach: diogelwch, parch, gweithgarwch pwrpasol a pharatoi ar gyfer rhyddhau (gweler Atodiad I am ragor o wybodaeth am y profion). Rydym hefyd yn cynnwys sylwadau ar arweinyddiaeth yn y carchar (gweler Adran 2).
- 1.2 Yn yr arolygiad hwn o CEF Caerdydd, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion fel a ganlyn:
- yn weddol dda o ran diogelwch
  - yn weddol dda o ran parch
  - yn weddol dda o ran gweithgaredd pwrpasol
  - yn weddol dda o ran paratoi ar gyfer rhyddhau.
- 1.3 Y tro diwethaf i ni arolygu CEF Caerdydd oedd yn 2019. Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae canlyniadau i garcharorion wedi newid ers yr arolygiad diwethaf.

**Ffigur 1: Canlyniadau carchar iach CEF Caerdydd 2019 a 2024**



## Cynnydd gyda'r prif bryderon ac argymhellion

- 1.4 Yn ein harolygiad diwethaf yn 2019, fe wnaethom godi 20 o bryderon, ac roedd chwech ohonynt yn bryderon â blaenoriaeth. Derbyniodd y carchar 19 o'r argymhellion yn llwyr a derbyn un yn rhannol.
- 1.5 Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod dau o'n hargymhellion am feysydd sy'n peri pryder mawr wedi'u cyflawni, un wedi'i gyflawni'n rhannol a thri heb eu cyflawni. Roedd yr un argymhelliad a wnaed ym maes

diogelwch wedi'i gyflawni ac, o'r tri argymhelliad ynglŷn â pharch, roedd un wedi'i gyflawni, un wedi'i gyflawni'n rhannol ac un heb ei gyflawni. Ni chyflawnwyd yr un o'r ddau argymhelliad a wnaed ynglŷn â pharatoi ar gyfer rhyddhau. Ewch i Adran 7 i weld y rhestr lawn o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Arferion cadarnhaol nodedig

1.6 Rydym yn diffinio arferion cadarnhaol nodedig fel:

Tystiolaeth o fodloni ein disgwyliadau i sicrhau canlyniadau arbennig o dda i garcharorion, a/neu dulliau arbennig o wreiddiol neu greadigol o ddatrys problemau.

1.7 Canfu'r arolygwyr bedair enghraifft o arferion cadarnhaol nodedig yn ystod yr arolygiad hwn, y gallai carchardai eraill ddysgu ohonynt neu eu hefelychu. Oni nodir yn wahanol, nid yw'r enghreifftiau hyn yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol, maent yn giplun o adeg penodol ac efallai na fyddant yn addas ar gyfer sefydliadau eraill. Maent yn dangos rhai o'r ffyrdd y gellid bodloni ein disgwyliadau ond nid dyma'r unig ffordd o bell ffordd.

### Enghreifftiau o arferion cadarnhaol nodedig

- |    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |                                |
|----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------|
| a) | Roedd y llywodraethwr wedi ariannu uwch arweinydd i ddatblygu cymorth i oedolion ifanc a charcharorion a oedd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol fel plentyn; roedd hyn yn cynnwys diwrnodau llesiant a oedd yn cael eu gwerthfawrogi gan y rhai y buom yn siarad â nhw. Roedd y canlyniadau gweladwy yn cynnwys gwella'r broses o adnabod carcharorion sydd â phrofiad o'r system ofal a defnydd da o gynghorwyr personol awdurdodau lleol y gallai carcharorion gysylltu â nhw drwy rif ffôn rhad ac am ddim. | Gweler paragraffau 3.15 a 4.28 |
| b) | Roedd y carchar yn safle peilot ar gyfer prosiect a ariennir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF i ddarparu goruchwyliaeth strwythuredig gan gymheiriaid i swyddogion rheng flaen. Nod hyn oedd cefnogi llesiant a chynyddu hyder swyddogion wrth ddelio â charcharorion. Siaradodd y rhai a oedd yn cymryd rhan yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad ychwanegol.                                                                                                                                             | Gweler paragraff 4.2           |
| c) | Roedd yr ymgynghori â charcharorion yn rhagweithiol ac wedi'i wreiddio'n dda. Mynychodd y llywodraethwr fforymau cymheiriaid wythnosol a chyflwynwyd fforymau rheolaidd ar gyfer carcharorion o grwpiau lleiafrifol a gwarchodedig. Cafodd yr ymgynghori ei wella hefyd drwy ddefnyddio gweithwyr cymheiriaid yn dda.                                                                                                                                                                                              | Gweler paragraff 4.17          |

---

|    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                      |
|----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|
| d) | Roedd Waliau Anweledig Cymru (prosiect a ariennir gan y Loteri Fawr) yn darparu ystod dda o gymorth i garcharorion i hyrwyddo perthynas gyda'u plant a'u teuluoedd. Roeddent hefyd yn cefnogi carcharorion nad oeddent yn cael ymweliadau cymdeithasol a oedd yn faes a oedd yn aml yn cael ei anwybyddu. | Gweler paragraff 6.1 |
|----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|

---

## Adran 2 Arweinyddiaeth

**Mae arweinwyr yn darparu'r cyfarwyddyd, yr anogaeth a'r adnoddau i sicrhau canlyniadau da i garcharorion.** (I gael diffiniad o arweinwyr, gweler Geirfa)

- 1.8 Mae arweinyddiaeth dda yn helpu i sbarduno gwelliannau a dylai arwain at well canlyniadau i garcharorion. Mae'r naratif hwn yn seiliedig ar ein hasesiad o ansawdd yr arweinyddiaeth gyda thystiolaeth o ffynonellau gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu, trafodaethau â rhanddeiliaid, ac arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad. Nid yw'n arwain at sgôr.
- 1.9 Roedd y llywodraethwr a'r dirprwy yn uchelgeisiol ac yn benderfynol wrth geisio sicrhau canlyniadau da i garcharorion. Roedden nhw'n hawdd mynd atynt, yn arwain drwy esiampl ac yn amlwg iawn i'r staff a'r carcharorion. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn gwybod beth oedd eu blaenoriaethau ac yn cytuno â nhw. Roeddent wedi cynnal aelodaeth weddol sefydlog o'r uwch dîm arwain ac wedi darparu goruchwyliaeth dda gan gyfrannu at amgylchedd tawel a threfnus ar draws y carchar.
- 1.10 Soniodd carcharorion yn gadarnhaol iawn am lawer o'r agweddau sylfaenol ar fywyd yn y carchar. Er bod llawer o'r unedau preswyl yn rhai Fictoraidd, roedd ymrwymiad rhagorol i gynnal glanweithdra a gwedduster gydag archwiliadau rheolaidd ac effeithiol. Roedd amser allan o'r gell yn cael ei ddarparu'n ddibynadwy ac, er bod angen ei wella ymhellach, roedd prydlondeb ymatebion i geisiadau a chwynion yn well nag y gwelwn yn aml.
- 1.11 Roedd HMPPS wedi darparu cymorth i arweinwyr yng Nghaerdydd yn dilyn nifer uchel iawn o farwolaeth a achoswyd gan yr unigolion eu hunain ers ein harolygiad diwethaf, ond roedd gormod o staff yn dal heb gael yr hyfforddiant ddiweddaraf ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio.
- 1.12 Roedd yr ymgynghori a'r ymgysylltu â charcharorion yn dda iawn, yn enwedig ymrwymiad y llywodraethwr i fforwm wythnosol gyda gweithwyr cymheiriaid. Roedd yr ystod eang a'r defnydd o weithwyr cymheiriaid yn cefnogi ymgynghori ac ymgysylltu ymhellach ac roedd arweinwyr yn cyflwyno gweithiwr cymheiriaid newydd gyda'r nod o ddatblygu sgiliau ymdopi ymysg eraill.
- 1.13 Roedd gweithio mewn partneriaeth yn gryf yn y rhan fwyaf o feysydd. Er enghraifft, roedd Waliau Anweledig (prosiect a ariennir gan y Loteri Fawr) nid yn unig yn darparu ystod greadigol o gefnogaeth i hyrwyddo cyswllt â phlant a theuluoedd, ond hefyd yn cefnogi dynion agored i niwed neu ynysig i roi anogaeth a gobaith iddynt. Yn ddiweddar iawn, roedd y llywodraethwr wedi arwain y gwaith o ddatblygu cyfarfod ychwanegol gydag arweinwyr o'r gwasanaeth prawf i wella gweithio mewn partneriaeth, ac roedd gweithio ar y cyd â gofal iechyd hefyd yn dda, gan gynnwys gwell goruchwyliaeth.

- 1.14 Roedd arweinwyr yn amlwg yn gwerthfawrogi lles staff ac wedi cymryd camau i gefnogi hyn. Roedd sesiynau hyfforddi misol ar gael i staff. Cafodd swyddogion sy'n gweithio mewn meysydd cymhleth fel gofal iechyd, uned gofal a gwahanu a landin B1 gefnogaeth reolaidd gan Wasanaethau Seicolegol Fforensig (FPS) Cymru. Roedd prosiect peilot dan arweiniad Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus i ddarparu sesiynau goruchwyllo strwythuredig i swyddogion gan dîm bach o swyddogion goruchwyllo i'w helpu i ddatblygu a magu mwy o hyder.
- 1.15 Roedd y carchar wedi llenwi pob swydd swyddog carchar, ond er gwaethaf ymdrechion arweinwyr i gefnogi staff, roedd cyfraddau salwch yn rhy uchel, ac roedd nifer y swyddogion a oedd yn cael eu hanfon i garchardai eraill yn cael effaith negyddol ar gyflawni rhai tasgau yn CEF Caerdydd, megis gwaith allweddol.
- 1.16 Roedd adnoddau ychwanegol wedi cael eu darparu gan arweinwyr i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol. Er enghraifft, roedd arweinydd newydd wedi cael ei benodi i ddatblygu'r gwaith gydag oedolion ifanc a'r rheini a oedd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol. Roedd arweinwyr hefyd wedi agor uned byw heb sylweddau gyda chymhelliad yn 2023 i gefnogi carcharorion sy'n gwella o broblemau cyffuriau ac alcohol.

## Adran 3 Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.**

### **Dyddiau cynnar yn y ddalfa**

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion sy'n trosglwyddo i'r carchar ac oddi yno yn ddiogel ac yn cael eu trin yn weddus. Mae carcharorion sy'n cyrraedd yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Mae risgiau'n cael eu nodi a rhoddir sylw iddynt yn y dderbynfa. Cefnogir carcharorion ar eu noson gyntaf. Mae'r gweithdrefnau ymsefydlu'n gynhwysfawr.

- 1.17 Roedd y dderbynfa'n brysur, gyda 60 i 70 o garcharorion newydd yn cyrraedd bob wythnos yn ogystal â symudiadau o'r llys, trosglwyddiadau a rhyddhau. Roedd rhai carcharorion yn aros yn rhy hir dan glo yn y cerbyd hebrwng cyn cael mynd i'r dderbynfa.
- 1.18 Yn ein harolwg, dywedodd 77% o'r carcharorion eu bod wedi'u trin yn dda yn y dderbynfa. Roedd y staff yn gwrtais ac yn gyfeillgar, ond cymerodd amser hir i gwblhau prosesau'r dderbynfa a arweiniodd at oedi cyn symud carcharorion i'r adain gynefino. Roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod carcharorion sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn eu dewis iaith.
- 1.19 Roedd ardal y dderbynfa'n lân ac yn eang ond ychydig o wybodaeth i garcharorion oedd yn cael ei harddangos. Roedd yr ystafelloedd aros yn lân ond yn foel, er nad oedd carcharorion yn cael eu cloi i mewn, a oedd yn dda. Casglwyd rhywfaint o wybodaeth bersonol wrth ddesg agored o fewn clyw carcharorion a staff eraill, a oedd yn ddiffygiol o ran cyfrinachedd.



#### **Derbynfa CEF Caerdydd**

- 1.20 Yn ein harolwg, dywedodd 74% o garcharorion eu bod yn cael eu harchwilio'n barchus ond roedd carcharorion dan 25 oed a dinasyddion tramor yn llai cadarnhaol am eu profiad, gyda dim ond 46% a 44%, yn y drefn honno, yn cytuno â hyn. Cafodd yr holl garcharorion eu noeth-chwilio yn ogystal â sganio'u corff a'u harchwilio gan ddefnyddio cadair BOSS (sganiwr diogelwch agorfeydd y corff), a oedd yn adlewyrchu asesiad y sefydliad o'r risgiau a achosir gan gyflenwad cyffuriau anghyfreithlon. Roedd diffyg preifatrwydd yn y bwth a ddefnyddir ar gyfer noeth-chwilio.



#### **Bwth noeth-chwilio**

- 1.21 Gallai carcharorion gael cawod yn y dderbynfa a roedd gweithwyr cymheiriaid yn rhoi dillad carchar i newydd-ddyfodiaid ac yn darparu bwyd a diod adeg prydau bwyd. Cafodd pob carcharor gyfweiliad preifat gyda staff a oedd yn canolbwyntio'n briodol ar ddiogelwch. Cafodd unrhyw bryderon a nodwyd eu rhannu â staff ar yr adain noson gyntaf i wneud yn siŵr y gweithredid ar hynny.
- 1.22 Cafodd newydd-ddyfodiaid ail gyfweiliad yn breifat gydag aelod o staff ar yr adain gynefino ond, pan oedd y staff yn brysur, roedd rhai cyfweiliadau'n fyr iawn ac nid oeddent yn canolbwyntio'n ddigon da ar rannu'r holl wybodaeth berthnasol â charcharorion. Cafodd carcharorion gynnig galwad ffôn am ddim ar yr adain gynefino a chawsom wybod eu bod yn cael archwiliadau lles rheolaidd yn ystod eu dwy noson gyntaf. Fodd bynnag, ni chofnodwyd y gwiriadau hyn yn glir, gan ei gwneud yn anodd i reolwyr gadarnhau eu bod wedi digwydd.
- 1.23 Dechreuodd y broses gynefino ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl cyrraedd. Roedd yn cael ei arwain gan gymheiriaid yn bennaf ond yn cael ei oruchwylio'n briodol gan staff. Yn ein harolwg, dywedodd 85% o garcharorion eu bod wedi cael sesiwn gynefino, ond dim ond 53% ddywedodd ei fod yn cynnwys popeth yr oedd angen iddynt ei wybod. Roedd rhai carcharorion yn cael colli'r rhan a oedd yn egluro bywyd yn CEF Caerdydd, ac roedd y llyfryn gwybodaeth am y carchar ar gael yn Saesneg yn unig, ac roedd y naill a'r llall yn wendidau.

- 1.24 Roedd angen gwella'r amodau ar yr adain gynefino. Er enghraifft, roedd y celloedd noson gyntaf yn lân ond yn llwm. Nid oedd unrhyw lenni na chabinetau y gellir eu cloi, ac nid oedd sgriniau o amgylch ardal y toiled mewn celloedd a rennir.

## Annog ymddygiad cadarnhaol

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd diogel, ysgogol sy'n cael ei drefnu'n dda lle mae eu hymddygiad cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg, cymesur a chyson.

## Annog ymddygiad cadarnhaol

- 1.25 Yn ein harolwg, dywedodd 24% o garcharorion eu bod yn teimlo'n anniogel adeg yr arolygiad, a oedd yn debyg i'n harolygiad diwethaf, a charchardai tebyg eraill. Roedd yr awyrgylch yn y carchar yn ddiogel, gyda threfn dda.
- 1.26 Yn ein harolygiad diwethaf yn 2019, fe wnaethom nodi bod cyfradd y trais yn gymharol isel ac, yn yr arolygiad hwn, roedd y data'n dangos gostyngiad pellach. Yn ystod y 12 mis blaenorol, cafwyd 193 o ymosodiadau ar garcharorion a oedd ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer carchardai tebyg. Bu 14 ymosodiad difrifol rhwng carcharorion a oedd yn llawer is na charchardai tebyg, ac yn ostyngiad sylweddol ers 2019. Roedd nifer yr ymosodiadau ar staff hefyd wedi gostwng yn sylweddol.
- 1.27 Ymchwiliwyd yn drylwyr i bob digwyddiad o drais gan aelod o'r tîm dalfa fwy diogel a gwnaed atgyfeiriadau ar gyfer cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP, gweler Geirfa) pan oedd angen. Fodd bynnag, adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw ddiodefwr yn cael eu cefnogi drwy CSIP. Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau o ansawdd da gyda thargedau'n canolbwyntio ar ennyn ymgysylltiad cadarnhaol â'r drefn a chadw carcharorion yn brysur. Roedd y cynlluniau wedi'u gwreiddio'n weddol dda ac roedd y staff y buom yn siarad â nhw yn gyfarwydd â nhw.
- 1.28 Buom yn siarad â charcharorion a oedd yn cael eu rheoli o dan CSIP ac roeddent yn disgrifio eu bod yn cael cefnogaeth dda. Trafodwyd pob un o'r carcharorion hyn yn y cyfarfod ymyriadau diogelwch wythnosol i fonitro eu cynnydd, gosod targedau newydd a goruchwyllo'r canlyniadau. Roedd nifer dda yn bresennol yn y cyfarfodydd ac roeddent yn seiliedig ar waith amlddisgyblaethol da.
- 1.29 Roedd mentoriaid cymheiriaid lleihau trais yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn darparu lefel dda o gymorth i garcharorion a oedd yn ymwneud â thrais. Roedd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach ac roedd rhai carcharorion a oedd wedi cael eu hyfforddi fel gweithwyr cymorth emosiynol newydd ddechrau yn eu rôl newydd adeg yr arolygiad.

- 1.30 Nid oedd yr un carcharor yn ynysu ei hun oddi wrth garcharorion eraill rhag ofn trais neu fwlio. Yn gyffredinol, roedd y rheini a nodwyd gan staff yn cael eu symud i landin B1 lle gallent gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol a chymysgu'n ddiogel â'u cymheiriaid (gweler paragraff 3.45).
- 1.31 Roedd y llywodraethwr wedi ariannu uwch arweinydd i ddatblygu cymorth i oedolion ifanc a'r rheini a oedd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol pan oeddent yn blentyn. Roedd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i arweinwyr o'r grŵp hwn er mwyn iddynt allu rhoi cymorth mwy priodol iddynt, a oedd yn helpu i leihau tensiynau a phryder. Roedd eu cyfraniad i'r SIM, a darparu ymyriadau ar gyfer y grŵp hwn, yn amhrisiadwy. Roedd cysylltiadau wedi cael eu gwneud â chynghorwyr personol yn y gymuned ac roedd carcharorion ac aelodau o'u teulu yn gallu cysylltu â nhw drwy rif ffôn pin am ddim.
- 1.32 Roedd y tîm diogelwch yn cynnwys dau reolwr carchar a thri swyddog a oedd â chyfrifoldebau penodol, fel defnyddio grym, lleihau trais neu atal hunan-niweidio. Fodd bynnag, roeddent yn cael eu gosod ar draws yr adeiniau yn rheolaidd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i ymateb i bryderon diogelwch ar unwaith a gwneud cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau.
- 1.33 Trafodwyd ystod eang o ddata mewn cyfarfod diogelwch misol ac roedd arweinwyr yn ymwybodol o'r prif ffactorau sy'n sbarduno trais yn y carchar. Roeddent wedi ymgynghori â grwpiau o garcharorion i nodi'r rhesymau dros drais a sut y gallent ei wrthsefyll, a oedd yn gadarnhaol. Lluniwyd cynllun gweithredu i geisio lleihau trais ac roedd hyn wedi datblygu'n dda.
- 1.34 Roedd y cynllun cymelliadau lleol yn canolbwyntio ar hybu presenoldeb mewn gwaith ac addysg. Er enghraifft, roedd cyflogaeth â thâl gwell yn cael ei neilltuo ar gyfer y rhai ar lefel uchaf y cynllun. Dywedodd carcharorion wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwobrau oherwydd eu bod yn hyrwyddo ymddygiad da ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein harolwg lle dywedodd 92% fod y cymelliadau yn eu cymell i ymddwyn yn dda.
- 1.35 Fodd bynnag, roedd y gwaith o oruchwyllo'r cynllun yn anghyson, a gwelsom enghreifftiau o garcharorion yn colli eu swyddi heb unrhyw rybudd blaenorol nac adolygiad o lefel eu cymelliadau.

## **Dyfarniadau**

- 1.36 Yn ystod y 12 mis blaenorol, cafwyd 2,806 o ddyfarniadau. Cafodd cyhuddiadau eu dwyn am droseddau mwy difrifol, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn briodol. Yn y sampl a adolygwyd gennym, gwelsom fod lefelau'r ymholiadau'n dda a bod dyfarniadau a wnaed gan ddyfarnwyr yn gyson ac nid yn rhy gosbol.
- 1.37 Ychydig iawn o ddyfarniadau oedd heb eu gwneud adeg yr arolygiad. Anfonwyd y troseddau mwyaf difrifol megis ymosodiadau a chanfod cyffuriau anghyfreithlon ymlaen i'r heddlu, ond yr oedd y cyhuddiadau

hyn yn cymryd llawer gormod o amser i'w cwblhau. Roedd rhai wedi bod gyda'r heddlu ers dros 12 mis a oedd yn tanseilio unrhyw atebolrwydd ac ataliaeth ar gyfer carcharorion.

- 1.38 Roedd y gwaith o oruchwylio dyfarniadau yn dda ac roedd cyfarfodydd safoni rheolaidd yn edrych ar ystod eang o ddata i ddeall y tueddiadau a'r rhesymau dros y dyfarniadau. Adolygodd y dirprwy lywodraethwr 10% o'r holl ddyfarniadau a gwblhawyd, gan gyflwyno pwyntiau dysgu i ddyfarnwyr.

### **Defnyddio grym**

- 1.39 Defnyddiwyd grym 664 gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a oedd yn ostyngiad sylweddol ar y nifer yn y cyfnod cyn ein harolygiad yn 2019. Yn y deunydd a welsom, roedd grym wedi cael ei ddefnyddio'n briodol. Roedd lefelau da o dawelu ac roedd staff yn cyfathrebu'n dda â charcharorion yn ystod digwyddiadau atal, gan gymryd eu hamser i egluro beth oedd yn mynd i ddigwydd a rhoi cyfarwyddiadau i'r carcharor. Roedd hyn yn helpu i dawelu'r sefyllfa ac yn galluogi staff i ddatrys digwyddiadau'n gyflym gan ddefnyddio cyn lleied o rym â phosibl.
- 1.40 Gwelsom enghreifftiau o staff yn defnyddio grym ar garcharorion ag anghenion niwroamrywiol sylweddol, ond gwelsom ryngweithio amyneddgar a gofalgwr iawn lle defnyddiwyd y grym lleiaf, a staff yn cymryd pob gofal i ddiogelu'r carcharor.
- 1.41 Roedd y broses o oruchwylio'r defnydd o rym yn gadarn. Cafodd pob digwyddiad ei adolygu gan aelod o staff a oedd yn cyfleu pryderon ar unwaith i uwch arweinwyr, ac adolygwyd pob digwyddiad mewn cyfarfod craffu wythnosol i sicrhau bod grym yn gyfiawn ac yn gymesur. Dadansoddodd cyfarfod strategol misol ystod eang o ddata i ganfod tueddiadau a'r rhesymau dros ddefnyddio grym.
- 1.42 Roedd camerâu fideo ar y corff yn cael eu defnyddio'n dda, gyda thua 70% o'r digwyddiadau'n cael eu cofnodi. Roedd yn galonogol gweld bod y camerâu wedi'u troi ymlaen yn ddigon cynnar i gofnodi ymdrechion swyddogion i dawelu ymddygiad y carcharor. Nid oedd yr arfer o ffilmio noeth-chwiliadau ar ôl adleoli i'r uned wahanu yn dilyn ataliaeth yn briodol, ond cymerodd arweinwyr gamau cyflym i atal hyn pan wnaethom dynnu eu sylw ato.
- 1.43 Ni fu unrhyw ddefnydd o PAVA (chwistrell analluogi) a oedd yn drawiadol o'i gymharu â llawer o garchardai tebyg. Dim ond tair gwaith yr oedd batonau wedi cael eu tynnu, ac fe'u defnyddiwyd unwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a oedd yn isel iawn.
- 1.44 Roedd llety arbennig wedi cael ei ddefnyddio bum gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid oedd dogfennau ar gael ar gyfer pob un o'r pum achlysur felly ni allem fod yn hyderus ei fod bob amser yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

## Gwahanu

- 1.45 Yn ystod y flwyddyn flaenorol, roedd 371 o garcharorion wedi cael eu cadw ar wahân. Yn gyffredinol, roedd arosiadau'n fyr, sef ychydig o dan dri diwrnod ar gyfartaledd. Roedd y staff yn ymgysylltu'n dda â charcharorion ac roedd carcharorion yn siarad yn gadarnhaol am y gefnogaeth roeddent wedi'i chael.
- 1.46 Braf oedd gweld bod swyddogion yr uned wahanu yn derbyn goruchwyliaeth grŵp misol gan y tîm seicoleg fforensig. Roedd y rhan fwyaf o swyddogion yn gwerthfawrogi hyn ac yn dweud ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer eu lles a'u datblygiad sgiliau. Gwelsom ryngweithio parchus rhwng staff a charcharorion, ond yn ein harolwg dim ond 39% o garcharorion ddywedodd eu bod yn cael eu trin yn dda.
- 1.47 Roedd y celloedd a'r ardaloedd cymunedol yn lân ac roedd yr amgylchedd wedi'i wella, gan gynnwys lluniau wedi'u hychwanegu ar y waliau yn y coridor. Roedd yr iard awyr agored yn fawr ond yn llwm, heb unrhyw offer ymarfer corff. Roedd amser allan o'r gell wedi'i gyfyngu i ychydig dros awr y dydd. Er y gallai carcharorion wneud cais i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel gwaith neu addysg yn y prif garchar yn amodol ar asesiad risg unigol, adeg yr arolygiad nid oedd neb yn cael mynediad at hyn. Yn ein harolwg, dim ond 35% o garcharorion ddywedodd fod ganddynt fynediad at ymarfer corff y tu allan, a 38% ddywedodd bod ganddynt fynediad at ffôn bob dydd os oedd ganddynt gredyd.



## Uned wahanu



### lard ymarfer corff yr uned wahanu

- 1.48 Nodwyd y rhesymau dros wahanu cychwynnol neu barhaus yn y rhan fwyaf o'r gwaith papur a adolygwyd gennym ond roedd y cynlluniau ailintegreiddio yn gyfyngedig ac nid oedd ganddynt dargedau ystyrlon. Roedd rhai carcharorion a oedd wedi bod yn yr uned wedi bod ar ACCTs (asesiad, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm i reoli achosion carcharorion sydd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio). Roedd modd amddiffyn y penderfyniadau i'w gwahanu ac roeddent yn cael eu monitro'n ddyddiol tra'n cael eu gwahanu i wirio eu hiechyd a'u lles.

## Diogelwch

Canlyniadau disgwylidig: Mae diogelwch a threfn dda yn cael eu cynnal drwy roi sylw i faterion ffisegol a gweithdrefnol, gan gynnwys gwybodaeth diogelwch effeithiol a pherthynas gadarnhaol rhwng staff a charcharorion. Mae carcharorion yn cael eu diogelu rhag dod i gysylltiad â defnyddio sylweddau ac mae mesurau effeithiol ar waith i leihau'r cyflenwad cyffuriau.

- 1.49 Cyflwynwyd nifer uchel o adroddiadau gwybodaeth, gyda mwy na 6,000 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roeddent yn cael eu rheoli'n dda ac nid oedd unrhyw ôl-groniad ar adeg ein harolygiad. Ymatebwyd i bryderon brys yn gyflym a chymerwyd camau priodol.
- 1.50 Roedd y wybodaeth hon yn helpu i ddatblygu ystod eang o ddata a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad tactegol lleol (LTA) o fygythiadau

diogelwch. Cafodd y rhain eu dosbarthu'n dda i'r staff ac roeddent yn cynnwys camau gweithredu addas i geisio mynd i'r afael â'r prif risgiau a nodwyd.

- 1.51 Y brif risg a amlygwyd yn yr LTA oedd defnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Yn ein harolwg, dywedodd 47% o garcharorion ei bod yn hawdd cael gafael arnynt o'i gymharu â 30% mewn carchardai tebyg. Roedd ychydig o dan chwarter yr holl brofion cyffuriau ar hap a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2023 wedi bod yn bositif, a oedd yn gyfran uchel. Roedd tua hanner y profion hyn yn nodi'r defnydd o feddyginiaeth nad oedd wedi'i phresgripsiynu i'r carcharor.
- 1.52 Roedd arweinwyr wedi ymateb yn dda ac wedi cymryd camau synhwyrol i geisio lleihau'r cyflenwad o gyffuriau ac eitemau anghyfreithlon eraill, gan gynnwys gosod sganiwr corff yn y dderbynfa. Roedd cysylltiadau da gyda'r heddlu lleol ac roedd menter ar y cyd i helpu i atal y cyflenwad cyffuriau wedi dechrau'n ddiweddar. Roedd strategaeth cyffuriau dda a gwybodys yn cysylltu lleihau'r cyflenwad â lleihau'r galw ac roedd cynllun gweithredu clir yn mynd rhagddo'n dda ac yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Cyfeiriwyd pob carcharor a brofodd yn bositif neu a gafodd ddyfarniad am ymddygiad sy'n gysylltiedig â chyffuriau, gan gynnwys eitemau a ganfuwyd wrth chwilio celloedd, at Dyfodol, y darparwr gwasanaeth defnyddio sylweddau.

## Diogelu

Canlyniadau disgwylidig: Mae'r carchar yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn cael eu nodi ac yn cael gofal a chymorth priodol. Mae pob oedolyn agored i niwed yn cael ei adnabod, ei amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod ac yn cael gofal a chymorth effeithiol.

### Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

- 1.53 Ers ein harolygiad blaenorol yn 2019, bu 10 o farwolaethau a achoswyd gan yr unigolion eu hunain, ac roedd un ohonynt wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn dilyn eu hymchwiliadau wedi cael sylw, ond nid oedd y camau gweithredu'n cael eu hadolygu'n ddigon rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i gael eu cyflawni yn unol â'r bwriad a bod y canlyniadau'n parhau i wella.
- 1.54 Yn ein hadroddiad arolygu diwethaf, fe wnaethom nodi bod cyfradd y hunan-niweidio wedi treblu ers 2016 a'i bod yn llawer uwch nag mewn carchardai tebyg. Rhoddwyd blaenoriaeth i leihau hyn ac roedd wedi gostwng 38% ers 2019 ac erbyn hyn roedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer carchardai tebyg. Yn ystod y chwe mis blaenorol, roedd 268 o achosion o hunan-niweidio gan 105 o garcharorion, gyda nifer fach ohonynt yn cyfrif am gyfran fawr o'r hunan-niweidio a gofnodwyd.

Cafwyd 10 digwyddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a oedd wedi arwain at driniaeth mewn ysbyty, er mai dim ond un o'r rhain yr ymchwiliwyd iddynt i ganfod pwyntiau dysgu, a oedd yn wael. Adolygwyd y dadansoddiad data yn y cyfarfod carcharu mwy diogel misol, ond roedd angen datblygu hyn ymhellach i'w wneud yn fwy addysgiadol.

- 1.55 Nid oedd y SIM wythnosol yn goruchwyllo nac yn cynllunio'r cymorth sydd ei angen ar gyfer yr holl garcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio. Dim ond y rheini yr ystyrid eu bod mewn mwy o berygl a oedd yn cael eu hadolygu, a oedd yn gadael bwlch o ran nodi a darparu cymorth ychwanegol i bobl eraill mewn argyfwng.
- 1.56 Yn ystod y chwe mis blaenorol, agorwyd 283 o ACCTs, gostyngiad o 37% ers yr arolygiad blaenorol. Adeg yr arolygiad hwn, roedd 25 o garcharorion yn destun monitro ACCT ac roedd y staff yn wybodus am y rhai yn eu gofal.
- 1.57 Roedd y rhan fwyaf o'r dogfennau ACCT a adolygwyd gennym yn cynnwys asesiadau da, ond roedd y cynlluniau gofal yn aml yn anghyflawn, roedd y cydlynnydd achosion a ddyrannwyd yn cael ei newid yn rhy aml, ac yn aml ni chofnodwyd archwiliadau dyddiol. Roedd arweinwyr yn ymwybodol o hyn ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn. Roedd carcharorion roeddem wedi siarad â nhw a oedd yn cael eu rheoli o dan ACCT yn disgrifio lefelau gweddol dda o gymorth, ond yn ein harolwg dim ond 41% o garcharorion a oedd wedi bod mewn perygl oedd yn teimlo bod staff yn gofalu amdanynt yn dda.
- 1.58 Roedd grŵp gweithredol o Wrandawyr (carcharorion a hyfforddwyd gan y Samariaid i ddarparu cefnogaeth emosiynol gyfrinachol i garcharorion eraill) yn ateb galwadau 24 awr y dydd. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y Samariaid, a gyfarfu â hwy bob wythnos. Erbyn hyn, roedd ffônau yn y celloedd yn galluogi carcharorion i wneud galwadau ffôn am ddim i'r Samariaid yn breifat.
- 1.59 Roedd goruchwyliaeth gyson wedi cael ei defnyddio dair gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Cafwyd 37 achos o ddefnyddio dillad atal-clymau yn ystod yr un cyfnod, ond gwelsom ychydig o achosion lle nad oedd y defnydd wedi'i awdurdodi gan uwch arweinydd ac nad oedd wedi'i gofnodi ar y log canolog.

### **Amddiffyn oedolion sydd mewn perygl (gweler yr Eirfa)**

- 1.60 Roedd polisi diogelu oedolion ar waith ac roedd cysylltiadau wedi'u gwneud â bwrdd yr awdurdod lleol. Ychydig iawn o staff yn y carchar, ar wahân i reolwyr troseddwyd, oedd wedi cael hyfforddiant diogelu i'w helpu i adnabod risgiau a sut i ymateb iddynt.
- 1.61 Gallai rhai carcharorion nad oeddent yn gallu ymdopi ar y brif adain oherwydd eu hymddygiad eu hunain neu'r risg o gael eu cam-drin neu eu bygwth gan eraill, gael eu lleoli mewn uned breswyl lai a thawelach

(B1). Roedd carcharorion yn ymgysylltu'n llawn, gan gynnwys mynediad at addysg, hyfforddiant neu waith oddi ar yr adain neu ar yr adain, ac roedd staff yn cynnig cymorth da o ddydd i ddydd a oedd yn cael ei werthfawrogi gan garcharorion.

## Adran 4 Parch

**Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas.**

### **Perthynas rhwng staff a charcharorion**

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch gan staff drwy gydol eu cyfnod yn y ddalfa ac fe'u hanogir i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain.

- 1.62 Roedd canlyniadau ein harolwg yn gadarnhaol gyda 71% o garcharorion yn dweud bod staff yn eu trin â pharch a 73% yn dweud bod ganddynt aelod o staff i droi ato os oedd ganddynt broblem. Gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol rhwng carcharorion a staff o amrywiaeth eang o dimau. Roedd y rhan fwyaf o'r carcharorion y buom yn siarad â nhw yr un mor gadarnhaol am eu triniaeth, ond roeddent hefyd yn mynegi rhwystredigaeth ynghylch rhai aelodau staff nad oeddent yn mynd ar drywydd eu ceisiadau'n brydlon.
- 1.63 Roedd staff yn gyson ac yn deg wrth gymhwyso'r rheolau ac roedd llawer o garcharorion yn disgrifio awyrgylch tawel a threfnus. Roedd y carchar yn safle peilot ar gyfer prosiect i roi goruchwyliaeth strwythuredig i swyddogion carchar a oedd yn cefnogi eu lles ac yn ceisio cynyddu eu hyder wrth ddelio â charcharorion (gweler paragraff 2.7). Roedd grŵp bach o swyddogion wedi cael eu hyfforddi i gefnogi eu cymheiriaid i ddatblygu eu sgiliau neu i archwilio'r effaith yr oedd y gwaith yn ei chael arnynt. Siaradodd y rhai a oedd yn cymryd rhan yn gadarnhaol am y cymorth ychwanegol.
- 1.64 Roedd y gwaith allweddol (gweler yr Eirfa) wedi bod yn gryfder yn yr arolygiad blaenorol ond nid oedd digon yn cael ei ddarparu erbyn hyn. Roedd llai o garcharorion nag yn 2019 yn gwybod bod ganddynt weithiwr allweddol ac roedd y rhai y buom yn siarad â nhw yn disgrifio diffyg cysondeb o ran darparu sesiynau. Ategwyd hyn gan nodiadau achos electronig a oedd yn dangos diffyg parhad o ran y swyddog a oedd yn cynnal sesiynau gyda charcharor unigol ac amseroedd amrywiol rhwng y sesiynau. Roedd arweinwyr yn ceisio gwella'r canlyniadau hyn drwy gyflwyno cynllun dyrannu newydd ar gyfer staff.
- 1.65 Cafodd carcharorion gyfleoedd da i ymgymryd â rolau a oedd yn eu galluogi i gyfrannu at gymuned eu carchar, ymgysylltu â staff a helpu eu cymheiriaid. Roedd yr ystod o waith cymheiriaid yn dda ac yn cynnwys derbyn a chynefino, profiad gofal, addysg, mechnïaeth, ac amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd y gweithwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio'n dda ac wedi cael hyfforddiant priodol. Roedd rôl newydd yn cael ei datblygu ar gyfer gweithwyr cymheiriaid i helpu eraill i ymdopi'n well â'u hamser yn y carchar.

## Bywyd bob dydd

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus ac yn ymwybodol o reolau ac arferion y carchar. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy'n rheolaidd a gallant wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno ac unioni yn effeithlon ac yn deg.

### Amodau byw

- 1.66 Roedd bron i ddwy ran o dair o'r boblogaeth yn byw mewn amodau gorlawn gyda dau yn rhannu cell wedi'i dylunio ar gyfer un, yn aml gyda sgrinio annigonol o amgylch y toiled. Nid oedd gan unrhyw gelloedd gabinetau y gellir eu cloi i garcharorion storio eiddo neu feddyginiaeth yn ddiogel.
- 1.67 Roedd y carchar yn lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn weddus, gydag arweinwyr, staff a charcharorion wedi ymrwymo'n llwyr i'r ethos hwn ac yn gweithio'n galed i gynnal safonau uchel. Roedd safonau glanweithdra cyffredinol yn well o lawer na'r hyn a welwn mewn carchardai tebyg.



### Landin y carchar

- 1.68 Yn ein harolwg, roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cytuno bod y manau cymunedol yn lân. Roedd ardaloedd mewnol ac allanol yn rhydd o sbwriel a chymerwyd camau'n gyflym i gael gwared â malurion a daflwyd allan o ffenestri celloedd. Er gwaethaf hyn, roedd llygod a llygod mawr yn bla, ond roedd yn amlwg bod arweinwyr yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

- 1.69 Yn ein harolwg, dywedodd 93% o garcharorion eu bod yn gallu cael cawod bob dydd ac roedd 83% yn gallu cael dillad gwely glân bob wythnos o'i gymharu ag 82% a 57%, yn y drefn honno, mewn carchardai tebyg. Roedd gan y rhan fwyaf o'r adeiniau olchdy ar gyfer golchi dillad personol. Roedd dillad carchar a dillad gwely yn cael eu cyfnewid yn wythnosol a'u golchi yn y golchdy canolog ar y safle. Gallai'r holl garcharorion amnewid dillad yn ystod ymweliadau penwythnos.
- 1.70 Dim ond y rhai sydd ar remand neu ar lefel uwch y cynllun cymell allai wisgo eu dillad eu hunain, fel yn y rhan fwyaf o garchardai tebyg.

### **Gwasanaethau preswyl**

- 1.71 Yn ein harolwg, dywedodd 42% o garcharorion fod y bwyd yn dda a dywedodd 36% fod ganddynt ddigon i'w fwyta. Fe dreulion ni amser ar gownteri arlwygo'r adeiniau ac ni chawsom unrhyw gwynion am y bwyd.
- 1.72 Dewisodd carcharorion eu prydau ymlaen llaw, yn seiliedig ar gylch pedair wythnos. Roedd ymgynghori rheolaidd yn effeithiol o ran dylanwadu ar newidiadau i'r fwydlen lle bo hynny'n bosibl. Adlewyrchwyd yr ystyriaeth o anghenion diwylliannol a chrefyddol y boblogaeth yn y dewisiadau sydd ar gael a darparodd y gegin amrywiaeth o ddietau arbennig ar gais yr adran gofal iechyd.
- 1.73 Roedd y gegin yn lân ac yn cael ei rhedeg yn dda. Roedd pob carcharor yn ymgymryd â dyletswyddau glanhau ar ddiwedd pob gwasanaeth, ac roedd y rhan fwyaf wedi ymgymryd â hyfforddiant hylendid bwyd. Roedd y cyfleoedd hyfforddi'n cynnwys chwech o garcharorion yn ymgymryd â chymwysterau arlwygo galwedigaethol.
- 1.74 Roedd y cownteri arlwygo ar yr adeiniau a'r trolïau bwyd yn lân ac roedd lefel yr oruchwyliaeth gan swyddogion adeg prydau bwyd yn dda. Mynychodd arlwywyr o leiaf un sesiwn gwasanaeth bwyd ar bob adain bob wythnos i sicrhau ansawdd. Nid oedd llawer o gyfle i hunanarlwygo ac roedd yn rhaid i'r rhan fwyaf o garcharorion fwyta eu prydau bwyd yn eu celloedd cyfyng.
- 1.75 Yn ein harolwg, dywedodd 65% o garcharorion fod y siop yn gwerthu'r pethau yr oedd eu hangen arnynt a bod mynediad at gatalogau yn dda. Gan mai dim ond ar-lein yr oedd y rhan fwyaf o gatalogau ar gael, nid oedd carcharorion yn gallu cael gafael arnynt. Roedd arweinwyr felly wedi trefnu bod adrannau'n cael eu hargraffu i roi'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar garcharorion i ddewis eitemau a gwneud cais am archeb.
- 1.76 Roedd carcharorion a oedd newydd gyrraedd yn cael dewis pecyn bwyd sylfaenol neu becyn fêpio i ysmygwyr, ac roeddent hefyd yn gallu prynu pecyn nwyddau ymolchi a chredyd ffôn PIN. Gallai carcharorion aros am bron i bythefnos am eu harcheb siop llawn cyntaf, a oedd yn rhy hir ac yn cynyddu'r risg o fynd i ddyled.

## Ymgynghori â charcharorion, ceisiadau a gwneud iawn

- 1.77 Roedd yr ymgynghori wedi'i wreiddio'n dda ac yn effeithiol o ran hyrwyddo newidiadau cadarnhaol. Roedd uwch arweinwyr yn weladwy o amgylch y carchar ac yn cymryd rhan mewn ystod o ymgynghoriadau â charcharorion (gweler paragraff 4.22). Arweiniodd y llywodraethwr drwy esiampl a mynychodd y fforwm gweithwyr cymheiriaid wythnosol, sy'n rhywbeth nad ydym yn ei weld mewn mannau eraill yn aml. Defnyddiwyd fforymau neu arolygon eraill i archwilio barn carcharorion ar bynciau fel ansawdd y bwyd a'r ffreutur ac achosion trais (gweler paragraff 3.17).
- 1.78 Ni chraffwyd ar y system ceisiadau ar bapur ac ni allai arweinwyr fod yn sicr ynghylch prydlondeb nac ansawdd yr ymatebion.
- 1.79 Roedd cofnodion yn dangos bod bron i 1,700 o gwynion wedi cael eu cyflwyno yn 2023, a oedd yn debyg i garchardai derbyn eraill. Roedd systemau ar gyfer cofnodi ac olrhain cwynion wedi cael eu cryfhau ac nid oedd ôl-groniad bellach a oedd wedi bod yn wendid yn ein harolygiad diwethaf. Roedd yr ymatebion y buom yn edrych arnynt yn gwrtais ac roedd sicrhau ansawdd gan y dirprwy lywodraethwr yn helpu i wella'r safon gyffredinol.
- 1.80 Roedd cyfleusterau cyswllt preifat a chyswllt fideo addas ar gael i garcharorion gwrdd â'u cynrychiolwyr cyfreithiol. Roedd swyddog gwybodaeth mechnïaeth ar gael i garcharorion ar remand ac roedd y llyfrgell yn cadw testunau cyfreithiol, a gallai argraffu cyfarwyddiadau cyfredol y gwasanaeth carchardai. Roedd dau liniadur diogel ar gael i garcharorion adolygu gwybodaeth am eu hachosion ac roedd arweinwyr yn ymwybodol o'r broses ar gyfer galluogi carcharorion cymwys i bleidleisio mewn etholiadau.

## Triniaeth deg a chynhwysiant

Canlyniadau disgwylidig: Mae dull clir o hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da. Mae anghenion penodol carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (gweler yr Eirfa), neu'r rheini a allai fod mewn perygl o gael eu gwahaniaethu neu o gael triniaeth annheg, yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw. Mae carcharorion yn gallu arfer eu crefydd. Mae'r gaplaniaeth yn chwarae rhan lawn ym mywyd y carchar ac yn cyfrannu at ofal, cefnogaeth ac adsefydlu cyffredinol carcharorion.

- 1.81 Roedd arweinwyr wedi nodi cynhwysiant a chyfle cyfartal fel un o brif flaenoriaethau'r carchar. Roedd rhai elfennau o'r ddarpariaeth yn gryf ond roedd meysydd gwannach ar ôl yr oedd gan arweinwyr gynlluniau i fynd i'r afael â hwy.
- 1.82 Roedd yr arweinwyr i gyd yn ymwneud â fforwm nodweddion gwarchodedig (gweler Geirfa) ac yn chwarae mwy o ran yn y gwaith o hyrwyddo triniaeth deg nag a welwn yn aml mewn carchardai tebyg. Cynhaliwyd fforymau'n gyson ar gyfer pob grŵp neu nodwedd.

- 1.83 Roedd cyfarfodydd strategol rheolaidd wedi dod i ben tua diwedd 2023 ond ers hynny roeddent wedi aildddechrau ac roedd polisi a chynllun gweithredu cyfredol i roi cyfeiriad i'r gwaith. Roedd arweinwyr yn gyfarwydd â gwahaniaethau posibl mewn canlyniadau. Defnyddiwyd data gan wahanol feysydd gwaith ac mewn nifer o gyfarfodydd i nodi canlyniadau yr oedd angen eu trafod neu ymchwilio ymhellach iddynt.
- 1.84 Defnyddiwyd setiau teledu yn y gell, gweithwyr cymheiriaid a hysbysfyrddau ar yr adeiniau i rannu gwybodaeth am waith a digwyddiadau amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd ansawdd a phrydlondeb ymchwiliadau i gwynion am gamwahaniaethu, y bu 58 ohonynt yn ystod y 12 mis diwethaf, wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, ac erbyn hyn roedd asiantaeth gymunedol yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd.
- 1.85 Roedd aelod o'r tîm cydraddoldeb yn gweld pob un newydd-ddyfodiad er mwyn adnabod unrhyw nodweddion gwarchodedig. Roedd hyn yn sail i wybodaeth am anghenion unigol a chyfansoddiad y boblogaeth. Cymerwyd camau dilynol addas, er enghraifft gwneud yn siŵr bod Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) ar waith ar gyfer carcharorion yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt mewn argyfwng.
- 1.86 Roedd carcharorion o dramor yn cynrychioli 11% o'r boblogaeth ac roedd eu hymatebion i'r arolwg yn llawer mwy negyddol na gwladolion y DU mewn sawl maes. Roedd y gefnogaeth i'r carcharorion hyn yn wannach nag i rai grwpiau eraill, yn enwedig i'r rheini a oedd yn siarad ychydig neu ddim Saesneg. Nid oeddem yn hyderus bod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd dros y ffôn bob amser yn cael eu defnyddio pan oedd angen. Roedd carcharorion eraill yn cael eu defnyddio yn lle hynny, nad oedd bob amser yn briodol, yn enwedig pan oedd materion personol yn cael eu trafod. Nid oedd deunyddiau wedi'u cyfieithu yn cael eu darparu fel mater o drefn (gweler paragraff 3.7) ac roedd rhestr aros ar gyfer dosbarthiadau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL). Roedd gweithwyr cymheiriaid a oedd yn wladolion tramor yn ceisio nodi angen a darparu cefnogaeth, ac roedd rhai llinellau cyngor am ddim ar gael ar y ffonau yn y celloedd. Ymwelodd un o swyddogion y Swyddfa Gartref bob pythefnos i weld carcharorion sydd o ddiddordeb i'r gwasanaeth mewnffudo. Roedd gan yr arweinwyr gynllun gweithredu manwl ar gyfer gweithio gyda'r grŵp hwn a ddylai, os caiff ei roi ar waith yn llawn, wella'r canlyniadau.
- 1.87 Nid oedd ein harolwg yn nodi unrhyw brofiadau gwahanol iawn ar gyfer carcharorion o leiafrifoedd ethnig, er bod rhai wedi siarad â ni am ddiffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol ymysg staff. Roedd hyfforddiant yn y maes hwn wedi'i gynllunio, ond roedd y gwaith o gwblhau hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant ar-lein yn wael. Cyfeiriodd arweinwyr a charcharorion at rai gwelliannau, er enghraifft, aethpwyd i'r afael â phryderon bod chwiliadau celloedd yn cael eu cynnal yn amharchus neu heb roi ystyriaeth briodol i eitemau crefyddol.
- 1.88 Roedd gwaith i gefnogi oedolion ifanc a charcharorion â phrofiad o ofal yn gryfder. Roedd y canlyniadau gweladwy yn cynnwys adnabod

carcharorion sydd â phrofiad o ofal yn well a chynnydd yn nifer y carcharorion sydd â chynghorydd personol awdurdod lleol y gallent gysylltu ag ef drwy rif ffôn pin rhad ac am ddim. Cynhaliwyd diwrnodau lles yn rheolaidd ac roeddent yn cael eu gwerthfawrogi gan y carcharorion y buom yn siarad â nhw. Roedd cynghorwyr personol awdurdodau lleol yn mynychu ac, mewn ymateb i nifer y carcharorion a oedd â phroblemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, cysylltwyd â Cyfle Cymru (gwasanaeth sy'n helpu pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau a/neu gyflyrau iechyd meddwl i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant) i gynnal sesiynau. Roedd cynlluniau'n mynd rhagddynt yn dda i ddefnyddio pecyn cymorth Dewisiadau a Newidiadau HMPPS, a luniwyd i helpu i ddatblygu aeddfedrwydd ymysg oedolion ifanc drwy gyfres o sesiynau strwythuredig.

- 1.89 Roedd yr arwyddion o amgylch y carchar yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd fersiynau Cymraeg o ffurflenni a gwybodaeth a oedd yn cael eu defnyddio'n aml ar gael ond nid oeddent ar gael ar unwaith bob amser.



#### Arwyddion Cymraeg a Saesneg

- 1.90 Labelwyd silffoedd yn y llyfrgell yn Gymraeg yn unig, heb unrhyw gyfieithiadau Saesneg (gweler paragraff 5.10). Ychydig o garcharorion oedd yn siaradwyr Cymraeg ac roedd presenoldeb mewn fforymau Cymraeg yn isel, er bod rhai carcharorion wedi dweud wrthym y byddent yn hoffi cael mwy o gyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, gan gynnwys rhai yr oedd eu plant yn dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol.
- 1.91 Yn ein harolwg, dywedodd 51% o garcharorion fod ganddynt anabledd a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod ganddynt broblemau iechyd meddwl. Dywedodd llawer mwy o garcharorion â phroblem iechyd meddwl eu bod wedi teimlo'n anniogel rywbryd yn y carchar a

dywedodd llawer mwy eu bod wedi cael eu bwlio gan garcharorion eraill.

- 1.92 Nid oedd y carchar wedi'i gynllunio i ddarparu ar gyfer carcharorion â symudedd cyfyngedig, ond roedd rhai addasiadau wedi cael eu gwneud, gan gynnwys ystafell wlyb ar landin F2.



**Ystafell wlyb ar uned F2**

- 1.93 Roedd staff yn ymwybodol o garcharorion a oedd angen cymorth ychwanegol mewn argyfwng, ac roedd eu lles a'u hangen parhaus am PEEP yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Nid oedd unrhyw gyfeillion carchar wedi cael eu neilltuo i helpu'r carcharorion hyn gyda thasgau o ddydd i ddydd ac roedd staff yn ymwybodol o'r risgiau a achosir gan gymorth mwy anffurfiol gan gymheiriaid. Roedd uned B1 yn cael ei gwerthfawrogi fel adain dawelach lle'r oedd cymorth yn cael ei ddarparu i garcharorion ag anghenion niwrowahanol neu anghenion penodol eraill (gweler paragraffau 3.14 a 3.45).
- 1.94 Roedd grŵp misol ar gael ar gyfer cyn-filwyr a oedd yn cynnwys asiantaethau cymorth cymunedol.
- 1.95 Roedd y nifer fach o garcharorion trawsryweddol fel arfer yn byw ar landin B1. Roedd y tîm cydraddoldeb yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â nhw ac roedd byrddau achosion yn cael eu cynnal. Roedd dillad a phethau ymolchi menywod ar gael i garcharorion trawsryweddol wrth iddynt gyrraedd a gallent brynu eitemau personol fel colur o siop y carchar.

## Ffydd a chrefydd

- 1.96 Roedd carcharorion yn cael cyfleoedd da i addoli ac i fynychu grwpiau gydag eraill o'r un ffydd. Mae'r prif gapel deniadol yn cael ei ategu gan ystafell aml-ffydd fawr, er nad oedd cyfleusterau ymolchi i'w defnyddio cyn gweddïo ar ddydd Gwener. Roedd ystafell lai wedi'i dodrefnu'n dda ac roedd ar gael i garcharorion fynd i angladdau wedi'u ffrydio'n fyw mewn preifatrwydd. Roedd cynnwys ffôn i wneud galwad ar ôl y gwasanaethau hyn yn dangos gofal i'r carcharorion. Disgrifiodd y caplaniaid agwedd gadarnhaol gan arweinwyr carchardai tuag at hwyluso presenoldeb carcharorion mewn angladdau neu i wneud ymweliadau olaf yn achos afiechyd difrifol.



Capel

- 1.97 Cynigiodd y gaplaniaeth gefnogaeth fugeiliol dda o gyrraedd i drosglwyddo neu ryddhau, gan gynnwys gwasanaethau wythnosol a grwpiau neu ddosbarthiadau. Roedd caplaniaid yn cwrdd â newydd-ddyfodiaid o fewn 24 awr, yn siarad â charcharorion yn yr unedau gwahanu a gofal iechyd bob dydd ac yn ymweld â charcharorion ar ACCT o leiaf unwaith yr wythnos. Roedd cylchlythyrau'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i garcharorion am wasanaethau caplaniaeth.

## Iechyd, lles a gofal cymdeithasol

Canlyniadau disgwylidig: Mae cleifion yn derbyn gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion iechyd, gofal cymdeithasol a defnyddio sylweddau ac sy'n hyrwyddo parhad gofal pan gânt eu rhyddhau. Mae safon y ddarpariaeth yn debyg i'r hyn y gallai cleifion ddisgwyl ei gael mewn mannau eraill yn y gymuned.

- 1.98 Cynhaliwyd yr arolygiad o wasanaethau iechyd gan HMIP gyda chefnogaeth gan Arolygiaeth Iechyd Cymru a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

### Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

- 1.99 Darparodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ofal iechyd, a oedd wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Yn ein harolwg, dywedodd 41% o garcharorion fod ansawdd y gwasanaeth bellach yn dda. Roedd arweinyddiaeth yn gryf ac roedd strwythurau llywodraethu strategol yn darparu goruchwyliaeth dda ar berfformiad a darparu gwasanaethau. Nid oedd yr asesiad o anghenion iechyd yn gyfredol, ond cytunwyd ar gyllid i gynnal adolygiad llawn.
- 1.100 Dangosodd y grŵp goruchwyllo iechyd gydweithio da rhwng y tîm iechyd a'r carchar ond nid oedd digon o ddadansoddi data, a oedd yn cyfyngu ar gyfleoedd i nodi'r gwelliannau sydd eu hangen.
- 1.101 Roedd risgiau i wasanaethau a chleifion wedi cael eu nodi ac roedd cynlluniau lliniaru dilys yn amlwg. Roedd y gwersi a ddysgwyd o farwolaethau yn y ddalfa yn helaeth ond nid oedd uwch reolwyr bob amser yn gwirio bod y newidiadau a wnaed wedi'u gwreiddio mewn ymarfer.
- 1.102 Roedd archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith ac roedd ystafelloedd clinigol yn lân ac yn daclus, er bod gofynion cynnal a chadw yn dal i fodoli mewn llawer o ystafelloedd, fel tapiau rhydd yn yr ystafell ddeintyddol, waliau yn plicio a thyllau mewn sinciau.
- 1.103 Roedd carcharorion yn defnyddio system gwyno'r carchar ar gyfer materion gofal iechyd, a oedd yn torri rheolau cyfrinachedd. Ar ôl i ofal iechyd dderbyn y ffurflenni cwyno, roedd yr ymatebion yn gyflym iawn ac yn aml dim ond diwrnod yr oedd hynny yn ei gymryd. Roedd yr ymatebion yn gwrtais ac yn ddiwyll ac yn mynd i'r afael â'r materion. Roedd uwchgyfeirio cwynion ar gael drwy brosesau allanol.
- 1.104 Adroddwyd am ddigwyddiadau, nodwyd themâu a rhannwyd y dysgu drwy gyfarfod dyddiol o'r holl dimau iechyd. Ni welsom ymateb brys, ond roedd y tîm yn cyflogi staff cymwys i wneud hyn. Roedd yn hawdd cael gafeal ar fagiau argyfwng a diffibrilwyr. Roedd y rhan fwyaf o staff y carchar yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Roedd rheolwyr carchar a swyddogion yn y gampfa wedi eu hyfforddi mewn triniaeth cynnal bywyd.

- 1.105 Casglwyd barn cleifion drwy ffurflenni adborth, cwynion ac adroddiadau digwyddiadau, ond nid oedd digon o ffocws ar ddadansoddi'r data hwn. Er enghraifft, nid oedd y rhestr aros am driniaeth ddeintyddol yn adlewyrchu'r oedi a achoswyd gan ailamserlennu rheolaidd, er bod cwynion am wasanaethau deintyddol yn awgrymu bod hyn yn broblem.
- 1.106 Roedd staff yn cael eu hyfforddi a'u goruchwyllo ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'i bod yn hawdd i garcharorion eu hadnabod.

### **Hybu iechyd a lles**

- 1.107 Effeithiwyd ar hybu iechyd gan ddiffyg staff a'r angen i reoli risgiau gwasanaeth. Nid oedd llawer o dystiolaeth o weithio ar y cyd gan bartneriaid i wella iechyd a lles carcharorion. Fodd bynnag, gwelsom gynlluniau da i wneud y gorau o ofal iechyd fel gwasanaethau ar yr adeiniau.
- 1.108 Roedd gan wasanaethau iechyd rhywiol staff integredig â chymwysterau addas, gan gynnwys arbenigwr cymunedol, i sicrhau bod triniaeth ar gyfer carcharorion â hepatitis a HIV yn effeithiol ac yn cael ei rheoli yn unol â safonau gofal cenedlaethol.
- 1.109 Roedd rhestrau aros hir ar gyfer sgrinio firysau a gludir yn y gwaed a brechiadau, a chafodd rhai carcharorion eu trosglwyddo neu eu rhyddhau cyn defnyddio'r gwasanaeth hwn. Gwnaed cynnydd realistig o ran hyfforddi staff i ddefnyddio offer sgrinio a oedd i fod i aildechrau yn ystod yr wythnos ar ôl yr arolygiad. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o sgrinio retinâu, y coluddyn ac ymlediad aortig o fewn tri mis, ac roedd hynny'n beth da.

### **Gwasanaethau gofal sylfaenol a chleifion mewnl**

- 1.110 Roedd mynediad at ofal iechyd yn dda. Cafodd ceisiadau eu casglu, eu cofnodi a'u blaenoriaethu a chafodd ymatebion eu hanfon yn ôl at gleifion. Er gwaethaf prinder staff, gweithiodd nyrsys yn galed i ddarparu ystod dda o ymyriadau a thriniaeth yn ystod clinigau ac roedd carcharorion yn gadarnhaol am y gofal a gawsant. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ein harolwg lle dywedodd 59% o garcharorion fod ansawdd y gofal nyrsio yn dda, o'i gymharu â 45% mewn carchardai tebyg.
- 1.111 Cafodd yr holl newydd-ddyfodiaid eu sgrinio yn unol â chanllawiau NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal) a'u hatgyfeirio i'w hasesu ymhellach. Fodd bynnag, roedd risgiau'n amlwg o ran goruchwyllo a gofalu am garcharorion â chlefydau cronig. Roedd meddyg teulu wedi ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith hwn ac roedd staff newydd yn cael eu hyfforddi i reoli'r cleifion hyn, ond roedd y rhan fwyaf yn brin o adolygiadau rheolaidd ac ychydig o gynlluniau gofal a welsom.
- 1.112 Roedd mynediad da at feddyginiaethau ac roedd meddygon teulu ar gael ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb bob diwrnod o'r wythnos.

Gwnaeth meddygon teulu newidiadau i feddyginiaethau ar bresgripsiwn, yn enwedig rhai a oedd yn ddymunol i'w masnachu, os oedd carcharorion yn cyrraedd gyda phresgripsiynau anniogel a di-drwydded. Roedd hyn yn achosi rhwystredigaeth i rai carcharorion. Roedd hyn yn parhau i fod yn broblem wrth i gleifion gael eu rhyddhau i'r gymuned, dim ond i ddychwelyd gyda'r un feddyginiaeth. Nid oedd unrhyw adnoddau i fabwysiadu dull profi cyffuriau gorfodol llawn ar gyfer yr achosion cymhleth hyn, lle byddai cleifion â meddyginiaethau ar gyfer cyflyrau corfforol, meddyliol a chamddefnyddio sylweddau wedi elwa o gael eu rheoli'n gyfannol.

- 1.113 Roedd amseroedd aros byr ar gyfer gwasanaethau optometreg a phodiatreg ac roedd sesiynau ffisiotherapi ar fin dechrau darparu mynediad haws at gymorth i'r rheini â phroblemau rheoli poen.
- 1.114 Nid oedd polisi ar reoli cleifion yr oedd arnynt angen gofal lliniarol, ond yr oedd cyngor ar gael ar yr achlysuron prin lle'r oedd angen gofal lliniarol.
- 1.115 Roedd apwyntiadau allanol yn yr ysbyty yn cael eu hwyluso'n dda gan y carchar ac roedd darpariaeth ddigonol ar gael. Roedd pob atgyfeiriad yn cael ei brosesu o dan system a oedd yn cwmpasu Cymru gyfan ac roedd apwyntiadau'r rhai a oedd yn cael eu symud i garchardai eraill yng Nghymru yn cael eu hanrhydeddu.
- 1.116 Roedd uned therapiwtig fawr 20 gwely i gleifion mewnol yn darparu cymorth ychwanegol i'r cleifion mwyaf sâl. Roedd yr uned dan arweiniad nyrsys yn darparu gofal 24 awr gyda chefnogaeth swyddogion medrus integredig a gweithwyr cymorth gan gymheiriaid preswyl.
- 1.117 Gofalwyd am gleifion yr oedd angen gofal ychwanegol arnynt pan oeddent yn cael eu dadwenwyno oherwydd alcohol yn unol â chanllawiau cenedlaethol, a oedd yn welliant ers 2019.
- 1.118 Roedd gan gleifion gynlluniau gofal unigol a oedd yn cynnwys ymweliadau â gwasanaethau addysg a llyfrgell, amseroedd cyswllt rheolaidd, mynediad at ardd sy'n cael ei chadw'n dda, a gweithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol sy'n cael eu cynnal gan swyddogion a'r ddau weithiwr gymheiriaid.
- 1.119 Nid oedd unrhyw lywodraethu ar ddefnyddio teledu cylch cyfyng cyson mewn celloedd, ac nid oedd hynny yn unol â gofynion preifatrwydd ac urddas. Roedd y rheolwr ieched wedi dechrau adolygu'r arfer hwn.

### **Gofal cymdeithasol**

- 1.120 Roedd memorandwm cyd-ddealltwriaeth cynhwysfawr (MOU) rhwng yr awdurdod lleol a'r carchar a oedd yn aros i gael ei gadarnhau. Nid oedd llawer o staff, gan gynnwys rheolwyr carchardai, wedi gweld y ddogfen. Roedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys cyfarwyddiadau clir ar sut i atgyfeirio carcharorion a ble i gofnodi atgyfeiriadau newydd. Roedd diffyg dealltwriaeth ymysg staff

carchardai ynghylch y gwahaniaeth rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol ac roedd hyn yn cael ei waethgu gan y ffaith bod y tîm iechyd yn mynd i'r afael ag anghenion gofal cymdeithasol cleifion mewnol yn hytrach nac atgyfeirio cleifion at ofal cartref.

- 1.121 Nid oedd y cofnod canolog ar gyfer atgyfeiriadau wedi cael ei ddefnyddio eto ac nid oedd digon o oruchwyliaeth wedi bod ar ganlyniad atgyfeiriadau diweddar a wnaed gan staff iechyd, er enghraifft, pa mor hir y cymerodd yr asesiad ac a oedd offer yn cael ei dderbyn yn brydlon. Roedd cynlluniau ar waith i unioni hyn.
- 1.122 Adeg yr arolygiad, nid oedd gan yr un carcharor becyn gofal cymdeithasol (gweler yr Eirfa) ac ni ddaethom o hyd i unrhyw garcharorion ag anghenion gofal cymdeithasol heb eu diwallu. Nid oedd cefnogaeth gan gymheiriaid i'r rheini nad oeddent yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gofal cartref, fel yr angen am help i lanhau celloedd a chasglu prydau bwyd. Dywedodd staff y carchar wrthym ei bod yn anodd cynnal y rolau cymheiriaid hyn oherwydd cyfradd brosesu uchel o ran carcharorion, ond bod cymorth gan gymheiriaid answyddogol ar gael. Roedd y defnydd hwn o weithwyr cymheiriaid ar hap a heb oruchwyliaeth yn cynnwys risgiau diogelu.

### **Iechyd meddwl**

- 1.123 Roedd gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cael eu harwain yn dda ac yn darparu gwasanaethau gwell yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl a basiwyd yn 2010).
- 1.124 Roedd y tîm iechyd meddwl amlddisgyblaethol yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau a oedd ar gael saith diwrnod yr wythnos, gan gynnwys cwnsela, nyrsio, therapi galwedigaethol a seiciatreg. Roedd y staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol. Cafodd gweithiwr ar ddyletswydd ei ddynodi bob dydd i ymateb i atgyfeiriadau brys, i frysbenneu ac i fynychu cyfarfodydd ACCT.
- 1.125 Yn ein harolwg, roedd 70% o garcharorion wedi datgan eu hunain bod ganddynt broblem iechyd meddwl Cafodd pob derbyniad newydd ei sgrinio am gyflyrau iechyd meddwl ac fe'u gwelwyd yn brydlon mewn achosion brys. Roedd gan nifer sylweddol o gleifion anghenion niwroamrywiol ac roedd y tîm yn cynnwys arbenigwr i drin cleifion ag ADHD.
- 1.126 Roedd rhai cleifion yn teimlo eu bod yn aros yn rhy hir am ymyriadau, ond roedd yr amseroedd aros yn cyfateb i'r rhai yn y gymuned ac roedd rhai yn fyr iawn, er enghraifft ar gyfer cwnsela. Roedd y tîm iechyd meddwl yn rheoli disgwyliadau drwy roi gwybod i gleifion am eu cynnydd drwy gyswllt wyneb yn wyneb rheolaidd neu drwy lythyr.
- 1.127 Adeg yr arolygiad, roedd gan 107 o gleifion a oedd yn derbyn therapïau unigol a grŵp gynlluniau gofal da a chofnodion clinigol cynhwysfawr. Roedd y therapïau'n cynnwys gweithgareddau hunan-gymorth ac

ymwybyddiaeth ofalgar i leddfu gorbryder ac iselder a therapi ymddygiad gwybyddol mwy datblygedig a dulliau sy'n gysylltiedig â thrawma. Cafodd cleifion ag anhwylderau meddwl difrifol eu cefnogi gan ymyriadau ar sail atebion a oedd yn eu hannog i hunanreoli. Defnyddiwyd y dull rhaglen ofal yn effeithiol i sicrhau bod cleifion agored i niwed yn cael eu monitro ac i sicrhau gofal drwy'r giât .

- 1.128 Roedd recriwtio ar y gweill ar gyfer swydd seicoleg wag. Roedd absenoldeb seicolegydd yn achosi risg y byddai anghenion heb eu diwallu yn dod i'r amlwg mewn cyflyrau seicolegol cymhleth sy'n gysylltiedig â thrawma ac roedd cwnselwyr yn lliniaru'r angen hwn adeg yr arolygiad. Roedd cleifion hefyd yn cael eu cyfeirio at adrannau eraill a oedd yn cynnig cymorth gan gynnwys y gaplaniaeth, gwasanaethau profedigaeth CRUSE, Dyfodol a'r Samariaid.
- 1.129 Adeg yr arolygiad, roedd dau glaf yn aros am asesiad ar gyfer trosglwyddo i'r ysbyty dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, gydag un ohonynt wedi aros 36 diwrnod (28 diwrnod yw'r targed). Roedd un ar ddeg o'r 13 trosglwyddiad diwethaf wedi'u cwblhau o fewn 31 diwrnod ar gyfartaledd. Roedd tri wedi aros y tu hwnt i'r targed, gydag un claf yn aros am fwy na 100 diwrnod, a oedd yn annerbyniol.

#### **Cymorth a thriniaeth ar gyfer carcharorion sy'n gaeth i sylweddau a'r rheini sy'n camddefnyddio sylweddau**

- 1.130 Roedd gwasanaethau i garcharorion a oedd yn gaeth i sylweddau wedi gwella gydag ystod ehangach o wasanaethau seicolegol a chlinigol. Dangosodd ein harolwg ganfyddiadau mwy cadarnhaol ymysg carcharorion nag mewn carchardai tebyg ynghylch mynediad at ac ansawdd y cymorth a ddarperir. Roedd y strategaeth gyffuriau yn cynnwys cymysgedd briodol o weithgareddau lleihau galw a darparu therapi.
- 1.131 Roedd Dyfodol yn darparu cymorth seicogymdeithasol ymatebol i'r carcharorion. Roedd y gweithwyr adfer hynod gymwys yn cynnig gwasanaeth yn ystod yr wythnos ac yn cael eu harwain a'u goruchwyllo'n dda. Roedd yr holl newydd-ddyfodiaid yn cael eu gweld ar gyfer asesiad ac roedd dynion yn gallu atgyfeirio eu hunain ar unrhyw adeg. Roedd atgyfeiriadau brys fel arfer yn cael eu gweld ar yr un diwrnod ac roedd y rhestrau aros ar gyfer asesiad manwl a thriniaeth yn fyr. Roedd y gwasanaeth yn brys iawn gydag 808 o atgyfeiriadau ym mis Ionawr 2024, gan arwain at 310 o asesiadau llawn a 222 mewn triniaeth seicogymdeithasol.
- 1.132 Cefnogwyd y cleientiaid yn unigol neu mewn grwpiau therapiwtig. Roedd amrywiaeth eang o grwpiau pwrpasol yn darparu addysg a chymorth ar bynciau fel cymhelliant a newid ac roedd nifer o raglenni cenedlaethol ar waith gan gynnwys adferiad SMART a'r rhaglen 12 Cam. Roedd yr adborth gan gleientiaid yn gadarnhaol yn ddieithriad. Cysylltwyd yn bersonol â dynion a oedd yn profi'n bositif wrth sgrinio cyffuriau i gael gwybod am y risgiau o guddio eitemau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac fe'u hanogwyd i gymryd rhan mewn gwaith adfer.

- 1.133 Roedd nyrsys a meddygon teulu a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol yn rheoli 206 o gleifion mewn therapi amnewid opiadau (OST), ac roedd 42 ohonynt yn cael bwprenorffin wedi'i chwistrellu oedd yn para am gyfnod hir. Gwelsom fod OST yn cael ei ddarparu'n dda ar yr adeiniau. Roedd gweithwyr cymheiriaid yn helpu gweithwyr adfer gyda chleientiaid ac roedd amrywiaeth addas o gyfarfodydd grŵp cyd-gymorth rheolaidd.
- 1.134 Roedd yr adain byw heb sylweddau dan gymhellant (ISFL) yn ddatblygiad addawol gyda swyddogion llawn cymhellant â chefnogaeth seicolegol. Roedd preswylwyr yn cydsynio i brofion cyffuriau rheolaidd i sicrhau uniondeb y gymuned. Roedd yr ISFL a Dyfodol wedi cyflwyno nifer o raglenni 12 Cam gyda chanlyniadau nodedig i rai unigolion.

### **Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol**

- 1.135 Roedd tîm fferyllfa â digon o adnoddau yn rhoi meddyginiaethau'n brydlon o fferyllfa fewnol. Roedd y goruchwyllo'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd. Gwnaeth fferyllwyr adolygu'r holl feddyginiaethau a bresgripsiynwyd yn glinigol ac roeddent yn hyderus i herio penderfyniadau presgripsiynu. Mynychai'r fferylllydd arweiniol gyfarfodydd rheoli meddyginiaethau rheolaidd. Roedd presgripsiynu meddyginiaethau y gellir eu masnachu yn cael ei fonitro a chafodd niferoedd isel eu presgripsiynu. Roedd rhaglen o archwiliadau celloedd wedi dechrau'n ddiweddar ond cafodd ei llesteirio gan ddiffyg adnoddau storio diogel yn y celloedd.
- 1.136 Roedd gan y fferyllfa ac ystafelloedd triniaeth yr adain gyfleusterau digonol ar gyfer storio meddyginiaethau, ond roedd meddyginiaethau stoc yn cael eu storio ar drolïau ar yr adeiniau nad oeddent wedi'u diogelu'n llwyr. Roedd cyffuriau rheoledig yn cael eu rheoli'n dda ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio a'u cludo drwy'r carchar yn ddiogel. Roedd meddyginiaethau tymheredd cyson yn cael eu cadw mewn oergelloedd addas a oedd yn cael eu monitro'n barhaus.
- 1.137 Roedd rhai meddyginiaethau'n cael eu cyflenwi gan y fferyllfa fel meddyginiaethau cleifion a enwir gyda labeli priodol a thrywydd archwilio dosbarthu, ond roedd y rhan fwyaf yn cael eu dosbarthu o'r stoc a oedd yn cael ei gadw ar yr adain. Nid oedd unrhyw archwiliad o'r stoc a oedd yn cael ei gadw ac roedd tystiolaeth o ddosbarthu eilaidd. Roedd y ddau arferiad hwn yn achosi risg uwch o gamgymeriadau.
- 1.138 Cynhaliodd y fferyllwyr glinigau rheolaidd i adolygu meddyginiaethau, yn eu dewis arbenigeddau ac ar gyfer ystod eang o gyflyrau eraill. Roedd fformiwlari ar waith a chofnodwyd y defnydd o feddyginiaethau ar SystmOne (cofnodion cleifion electronig). Cofnodwyd ac adolygwyd gwallau o ran meddyginiaeth. Roedd gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith ac roedd fferyllwyr yn darparu cymorth a chynghor i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.
- 1.139 Roedd polisi meddiant ar waith a chafodd asesiadau risg cychwynnol eu cwblhau a'u cofnodi ar SystmOne o fewn 24 awr i gyrraedd. Nid

oedd gan y rhan fwyaf o gleifion eu meddyginiaethau yn eu meddiant am eu 14 diwrnod cyntaf yn y carchar, ac ar ôl hynny roeddent yn eu cael yn eu meddiant os oedd yr asesiad risg yn nodi bod hynny'n briodol. Roedd asesiadau risg yn cael eu hadolygu bob tro roedd ffactor risg yn cael ei nodi a bob chwe mis. Roedd yn ymddangos bod presgripsiynu'n glynu wrth yr asesiad risg meddiant.

- 1.140 Cafodd y gwaith o roi meddyginiaethau ei arwain gan dîm o nyrsys a thechnegwyr fferyllol ddwywaith y dydd. Roedd cleifion yn cael cyngor am eu meddyginiaethau wrth ddod i'r drws. Ni aethpwyd yn gyson ar drywydd cleifion nad oeddent wedi casglu meddyginiaethau, a gallai hyn roi cleifion agored i niwed mewn perygl. Rhoddwyd meddyginiaethau amnewid opioidau cyn pob meddyginiaeth arall. Roedd rhai ciwiau'n cael eu rheoli'n dda a chafodd cleifion breifatrwydd wrth y drws, ond nid oedd hyn yn gyson ar draws y carchar.
- 1.141 Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys amrywiaeth o feddyginiaethau y gellid eu prynu ar gyfer hunanofal neu eu cyflenwi dan gyfarwyddyd grŵp cleifion. Gellid cyflenwi meddyginiaethau y tu allan i oriau, a darparwyd y rhan fwyaf, ond nid y cyfan, o feddyginiaethau presgripsiwn yn unig y tu allan i oriau mewn pecynnau wedi'u labelu ymlaen llaw. Nid oedd polisi a oedd yn caniatáu i staff nad ydynt wedi cofrestru fynd i mewn i'r fferyllfa, pan oedd wedi cau, i gasglu meddyginiaethau, gan gynnwys cyffuriau rheoledig, y ffordd fwyaf priodol o ddod o hyd i feddyginiaethau angenrheidiol. Nid oedd y practis yn cael ei archwilio'n dda, ac roedd risg o gamgymeriadau neu ddargyfeirio meddyginiaethau. Roeddem hefyd wedi gweld swyddogion yn mynd i ystafelloedd dosbarthu yn rhwydd i siarad â nyrsys.
- 1.142 Roedd meddyginiaethau'n cael eu darparu'n briodol ar gyfer cleifion a oedd yn cael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

### **Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg**

- 1.143 Darparodd deintydd lleol driniaeth frys ddwywaith yr wythnos a oedd yn llai aml nag yn ein harolygiad diwethaf. Ni chynigiwyd archwiliadau rheolaidd na chynlluniau triniaeth i'r rhan fwyaf o garcharorion. Roedd dwy ystafell ddeintyddol, ac nid oedd un ohonynt yn cael ei defnyddio. Roedd yr ystafell ddeintyddol wedi'i threfnu'n dda yn lân ac yn cael ei rheoli yn unol â'r safonau proffesiynol disgwyledig.
- 1.144 Dim ond 15% o'r carcharorion a holwyd ddywedodd ei bod yn hawdd gweld deintydd. Gallai amseroedd aros am apwyntiad fod rhwng un a thri diwrnod ond nid oedd oedi o hyd at fis yn anghyffredin oherwydd nifer fawr y cleifion sydd angen triniaeth. Roedd hyn yn rhy hir ar gyfer gofal deintyddol brys. Yn ein harolwg, dywedodd traean o'r carcharorion fod ansawdd y gofal deintyddol yn dda a oedd, er yn isel, yn well nag mewn carchardai tebyg.
- 1.145 Arweiniodd prinder gofal arferol at gleifion yn dirywio cyn iddynt allu cael gafeal ar ofal mwy brys, nad oedd yn cyd-fynd ag atal. Cynyddodd yr oedi mewn gofal y broses o roi gwrthfotigau ar bresgripsiwn a

chynyddu'r risg o sepsis, pydredd dannedd a'r posibilrwydd o dynnu dannedd.

- 1.146 Ni fynychodd dros 20% o gleifion eu hapwyntiadau, a oedd yn gwaethygu'r amseroedd aros. Achoswyd peth o'r diffyg mynychu gan brinder swyddogion hebrwng i'r ddeintyddfa.
- 1.147 Gallai carcharorion gael gafael ar feddyginiaethau lleddfu poen dros y cownter, ond roedd y rhain yn aml yn cael eu rhoi mewn dosau unigol a oedd yn atal y dos gorau posibl dros 24 awr.
- 1.148 Rhoddwyd cyngor gwella iechyd y geg yn ystod yr ymgynghoriad deintyddol ond nid oedd unrhyw daflenni cyngor ar broblemau deintyddol cyffredin a hunanofal yn y feddygfa, a oedd yn gyfle a gollwyd. Gallai'r tîm deintyddol roi presgripsiynau pan oeddent ar y safle a defnyddiwyd presgripsiynydd arall ar adegau eraill.
- 1.149 Roedd dogfennau polisi yn gyfredol ac ar gael ar y system TG. Roedd dogfennau cynnal a chadw a'r dogfennau sicrwydd priodol ar gael.

## Adran 5 Gweithgarwch pwrpasol

**Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

### Amser allan o'r gell

Canlyniadau disgwyliedig: Mae pob carcharor yn cael digon o amser allan o'r gell (gweler Geirfa) ac fe'u hanogir i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol sy'n cefnogi eu lles ac yn hyrwyddo adsefydlu effeithiol.

- 1.150 Roedd canlyniadau ein harolwg yn llawer gwell nag mewn carchardai tebyg o ran amser datgloi ond yn waeth o lawer nag yn ein harolygiad yn 2019 mewn perthynas ag amser datgloi yn ystod yr wythnos waith. Yn ystod ein harchwiliadau, gwelsom fod 28% o garcharorion wedi'u cloi yn ystod y diwrnod gwaith o'i gymharu â 18% yn ein harolygiad diwethaf.
- 1.151 Roeddem wedi cyfrifo bod tua 65% o'r boblogaeth yn cymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol ar unrhyw un adeg, roedd 30% yn ddi-waith ac roedd y gweddill ar yr adain oherwydd eu bod wedi ymddeol neu nad oedd eu hangen arnynt yn y gwaith. Roedd y drefn yn rhedeg yn brydlon ac roedd pwyslais da ar gael carcharorion i gymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol.
- 1.152 Roedd amser allan o'r gell i lawer o'r rhai a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol yn dda, a hynny am tua naw awr y dydd yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, dim ond awr y dydd o'u cell oedd gan y rhai ar lefel sylfaenol y cynllun cymelliadau. Roedd gan y di-waith dair awr a hanner wedi'u datgloi.
- 1.153 Roedd cyfnodau ymarfer corff y tu allan yn dal yn rhy fyr, sef tua 40 munud, ac roedd yn siomedig bod y rhain weithiau'n cael eu canslo os oedd hi'n bwrw glaw, yn hytrach na rhoi dillad tywydd gwlyb i garcharorion.
- 1.154 Roedd y cyfleusterau ar gyfer addysg gorfforol yn dda, gyda dwy ardal cardiofasgwlaidd a phwysau, neuadd chwaraeon un cwrt, ystafell ddosbarth ar gyfer digwyddiadau hyfforddi a chae pob tywydd yn yr awyr agored.
- 1.155 Cyflwynodd grŵp staff brwdfrydig raglen y gampfa a oedd yn ceisio diwallu anghenion amrywiol y boblogaeth, gan gynnwys sesiynau ar gyfer adain ISFL, landin B1 a charcharorion dros 50 oed. Roedd mynediad yn dda a gallai'r rhan fwyaf o garcharorion wneud cais i fynd i'r gampfa dair gwaith yr wythnos. Fodd bynnag, roedd yr amser a drefnwyd ar gyfer mynychu'r gampfa yn ystod y diwrnod gwaith craidd a oedd yn tarfu'n fawr ar fynychu addysg, hyfforddiant a gwaith. Dim

ond ar benwythnosau y cafodd carcharorion di-waith fynediad i'r gampfa, a oedd yn wael.

- 1.156 Dim ond yn ddiweddar y dechreuwyd monitro data ac nid oedd yn bosibl nodi cyfran y carcharorion a oedd wedi gallu mynychu sesiynau.
- 1.157 Roedd llyfrgellydd a swyddog a gefnogwyd gan ddau weithiwr cymheiriaid yn rhedeg y gwasanaeth llyfrgell. Dim ond i ddwy o'r adenydd yr oedd y prif lyfrgell ar gael, ac roedd yr adeiniau arall yn defnyddio dwy lyfrgell lloeren gyda detholiad llawer llai o lyfrau. Cafodd hyn ei liniaru ychydig gan wasanaeth archebu a danfon effeithiol.
- 1.158 Roedd y gwaith o hyrwyddo gwasanaethau llyfrgell yn wael, nid oedd unrhyw arddangosfeydd ar yr adeiniau ac nid oedd y rhaglen gynefino yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau llyfrgell. Ni allai unrhyw un o'r carcharorion y buom yn siarad â nhw a oedd wedi cwblhau'r broses gynefino'n ddiweddar ddweud wrthym sut i gael gafael ar lyfrau na lle'r oedd y llyfrgell.
- 1.159 Roedd strategaeth ddarllen ddiwygiedig wedi cael ei chyflwyno ond roedd y gwaith i hyrwyddo llythrennedd ar draws y carchar yn rhy gyfyngedig. Roedd gan y brif lyfrgell amrywiaeth dda o destunau cyfreithiol a lyfrau mewn ieithoedd eraill. Roedd gwybodaeth am bolisiau'r carchar ar gael yn rhwydd ac roedd dewis da o lyfrau yn Gymraeg. Labelwyd silffoedd yn y llyfrgell yn Gymraeg heb unrhyw gyfieithiad Saesneg.

## Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynhelir y rhan hon o'r arolygiad gan arolygwyr Estyn gan ddefnyddio fframwaith arolygu cyffredin Estyn. Mae hyn yn sicrhau bod carchardai'n cael eu dal yn atebol i'r un safon perfformiad â cholegau addysg bellach yn y gymuned.

Canlyniadau disgwyledig: Gall pob carcharor gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n bwrpasol, sydd o fudd iddynt ac sy'n gwella eu cyflogadwyedd. Anogir a galluogir carcharorion i ddysgu yn ystod ac ar ôl eu dedfryd. Mae'r ddarpariaeth dysgu, sgiliau a gwaith o safon dda ac yn effeithiol o ran diwallu anghenion pob carcharor.

- 1.160 Gwnaeth Estyn yr asesiadau canlynol am y ddarpariaeth dysgu, sgiliau a gwaith:
- Safonau: Da
  - Lles ac agweddau at ddysgu: Da

- Profiadau dysgu ac addysgu: Da
- Gofal, cefnogaeth ac arweiniad: Da
- Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

## Safonau

- 1.161 Cwblhaodd llawer o garcharorion a oedd yn cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant eu cyrsiau. Adeg yr arolygiad, cwblhawyd 81% o'r gweithgareddau'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi gwneud cynnydd tebyg i'r boblogaeth gyffredinol.
- 1.162 Gwnaeth llawer o ddysgwyr gynnydd da mewn gwersi addysg a sesiynau hyfforddiant galwedigaethol. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu sgiliau llythrennedd. Roeddent yn cymryd eu tro i gyfrannu at drafodaethau grŵp. Roeddent yn gwrando'n barchus ar ei gilydd, gan ddangos amynedd gyda'r rheini a oedd angen mwy o amser i lunio eu brawddegau ac annog y rhai nad oeddent bob amser yn gallu mynegi eu hunain yn glir.
- 1.163 Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio terminoleg pwnc-benodol neu dechnegol yn briodol wrth drafod eu gwaith. O fannau cychwyn isel yn gyffredinol, gwnaeth y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn ymwneud ag addysg neu hyfforddiant gynnydd gwerthfawr yn eu hysgrifennu. Ysgrifennon nhw atebion byr gan ddefnyddio brawddegau cyflawn, ac ysgrifennodd lleiafrif atebion estynedig i safon dda. Fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr wedi copïo brawddegau o gyflwyniadau athrawon i'w llyfrau gwaith asesu.
- 1.164 Mewn sesiynau teulu a pherthnasoedd, manteisiodd llawer o ddysgwyr ar y cyfle i fyfyrion ar eu cryfderau a'u gwendidau, er enghraifft beth oedd yn ei olygu i fod yn wrandawyr gweithredol.
- 1.165 Bu llawer o ddysgwyr yn ymarfer ac yn datblygu gwybodaeth a sgiliau mathemategol gwerthfawr fel rhan o wersi sgiliau hanfodol. Roedd lleiafrif yn cymhwyso'r rhain yn dda mewn meysydd galwedigaethol neu feysydd cwricwlwm eraill. Er enghraifft, dysgodd carcharorion mewn sesiynau celf am geometreg polygonau a defnyddio hynny i'w helpu i dynnu lluniau onglog haniaethol o anifeiliaid. Nid oedd llawer o ddefnydd na datblygu sgiliau TG llawer o ddysgwyr ar draws y ddarpariaeth.
- 1.166 Roedd bron pob dysgwr wedi datblygu sgiliau ymarferol gwerthfawr mewn sesiynau penodol fel celf, adeiladu a garddio. Er enghraifft, fe wnaethon nhw focsys adar ar gyfer ysgol leol. Dangosodd rhai lefel sgiliau arbennig o uchel yn eu gwaith, er enghraifft roedd gwaith celf rhai carcharorion wedi cael ei arddangos mewn digwyddiadau cenedlaethol mawreddog.

## **Lles ac agweddau at ddysgu**

- 1.167 Mynychodd llawer o ddysgwyr sesiynau addysg, sgiliau a gwaith. Fodd bynnag, roedd presenoldeb wedi gostwng ers yr arolygiad diwethaf. Er bod y rhan fwyaf o absenoldebau wedi'u hawdurdodi, os oedd gan ddysgwr apwyntiad arall, fel apwyntiad meddygol neu ymweliad cymdeithasol, roeddent yn colli hanner diwrnod o addysg, hyfforddiant neu waith a oedd yn effeithio ar eu cynnydd.
- 1.168 Roedd bron pob carcharor yn ymddwyn yn dda, roedd llawer yn cyrraedd yn barod i ddysgu, yn cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Dangosodd lleiafrif wytnwch pan oedd tasg yn heriol gan barhau i'w chwblhau. Roedd rhai dysgwyr yn arbennig o frwdfrydig am eu dysgu neu eu hyfforddiant ac wedi ymgolli ynddo, ond roedd rhai yn oddefol yn ystod sesiynau.
- 1.169 Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos gofal a pharch tuag at eu hamgylcheddau dysgu. Roeddent yn dangos dealltwriaeth gadarn o ofynion iechyd a diogelwch sylfaenol ac yn eu dilyn yn ddiwyd, er enghraifft wrth ddefnyddio offer syml a chyfarpar electronig, gan dacluso'n ofalus wedyn.
- 1.170 Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n effeithiol yn annibynnol a gyda'u cymheiriaid mewn grwpiau bach neu waith pâr. Roedd llawer o ddysgwyr yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u cymheiriaid, yn trafod materion gyda chyd-ddysgwyr ac yn cynnig cymorth ac arweiniad i'w gilydd. Roeddent yn dangos parch a sensitifrwydd at ei gilydd wrth siarad am eu rhwystrau i lwyddiant ac yn anghytuno'n barchus. Roedd hyn yn gryfder nodedig yn y sesiynau a arsylwyd.
- 1.171 Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi eu cyfleoedd dysgu ac yn mynegi sut byddai'r sgiliau roeddent wedi'u datblygu yn eu helpu i ddod o hyd i waith ac ail-ymgysylltu'n gadarnhaol â'u teuluoedd ar ôl cael eu rhyddhau. Er enghraifft, trafododd y dysgwyr heriau alcohol a sut roedd hyn wedi effeithio ar eu bywydau bob dydd, yn ogystal â strategaethau roedden nhw'n bwriadu eu defnyddio i osgoi hyn yn y dyfodol.
- 1.172 Derbyniodd ychydig o ddysgwyr swyddi â chyfrifoldeb. Er enghraifft, roeddent yn cefnogi eraill fel mentoriaid cymheiriaid neu'n darparu cymorth wedi'i dargedu i ddatblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr. Roeddent yn dangos amynedd, gofal a sensitifrwydd ac yn datblygu eu hannibyniaeth, eu hyder a'u sgiliau cymdeithasol yn llwyddiannus drwy eu rolau fel mentoriaid cymheiriaid.

## **Profiadau dysgu ac addysgu**

- 1.173 Roedd yna fodel cwricwlwm wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer addysg a hyfforddiant ac amrywiaeth o gyfleoedd gwaith ystyrlon, gan gynnwys sesiynau llythrennedd a rhifedd pwrpasol, darpariaeth addysgol ehangach a hyfforddiant galwedigaethol gwerthfawr. Roedd y ddarpariaeth yn ystyried anghenion cyflogadwyedd carcharorion a chyfleoedd gwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn dda. Cyflwynwyd llawer o gyfleoedd dysgu dros gyfnodau byr gyda

chyflawniadau diffiniedig a oedd yn cysylltu'n dda â'i gilydd. Roedd hyn yn helpu i gymell dysgwyr ac yn hwyluso'r broses o garcharorion yn cyrraedd ac yn gadael ar ôl cyfnodau byr yn unig. Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth wyneb yn wyneb ar lefelau 2 a 3 yn gyfyngedig.

- 1.174 Gallai dysgwyr ennill cymwysterau dymunol sy'n cael eu cydnabod gan ddiwydiant mewn meysydd fel toi, gwaith sgaffaldiau a hyfforddiant cledrau rheilffordd. Roedd cyfleuster coginio a lletygarwch 'The Clink' yn darparu hyfforddiant gwerthfawr i ychydig o ddysgwyr i ennill cymwysterau a chymorth ategol i'w helpu i ailintegreiddio yn y gymuned. Fodd bynnag, nid oedd rhai cyrsiau galwedigaethol eraill ar gael yn ystod yr arolygiad yn dilyn cau dau weithdy yn ddiweddar am fod pryderon ynghylch eu huniondeb strwythurol.
- 1.175 Roedd gwersi llythrennedd a rhifedd pwrpasol yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd gwerthfawr. Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n effeithiol i wreiddio datblygiad llythrennedd a rhifedd mewn sesiynau galwedigaethol a phynciau y tu allan i wersi sgiliau. Fodd bynnag, nid oedd digon o ddarpariaeth i alluogi siaradwyr neu ddysgwyr Cymraeg i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.
- 1.176 Roedd y ddarpariaeth addysg yn cynnwys gweithgareddau a oedd yn cefnogi anghenion lles a datblygiad personol dysgwyr yn llwyddiannus. Roedd sesiynau celf, teulu a pherthnasoedd ac agweddau ar y sesiynau penodol ar gyfer carcharorion niwroamrywiol yn darparu rhai gweithgareddau priodol i gefnogi carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gyda chyllidebu, sgiliau byw'n annibynnol a rheoli perthnasoedd.
- 1.177 Roedd y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr niwroamrywiol yn eu cefnogi'n effeithiol i ddatblygu eu llythrennedd a'u rhifedd. Fodd bynnag, nid oedd y ddarpariaeth i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ehangach a mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag ymgysylltu wedi'i datblygu'n ddigonol. Roedd effeithiolrwydd cyffredinol addasiadau i'r cwricwlwm ehangach ar gyfer y dysgwyr hyn yn rhy amrywiol.
- 1.178 Roedd dysgu o bell ac yn y celloedd yn galluogi ychydig o garcharorion i ymgysylltu â dysgu, er enghraifft defnyddio gliniaduron i gael mynediad at y rhith gampws (mynediad carcharorion at addysg gymunedol ar-lein, cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth) neu ddarpariaeth o bell ar lefel uwch, fel y Brifysgol Agored neu'r Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion. Fodd bynnag, roedd diffyg seilwaith a dyfeisiau TG priodol ar gyfer defnydd addysgol yn cyfyngu ar eu mynediad at ddeunyddiau addas, ac roedd yna gyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu eu sgiliau technoleg gwybodaeth.
- 1.179 Roedd y rhan fwyaf o athrawon a hyfforddwyr yn cynnal awyrgylch cynhyrchiol a chroesawgar mewn sesiynau. Cyflwynodd llawer o athrawon wersi gwerthfawr gan ddefnyddio adnoddau a dulliau dysgu addas, gan alluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth ac olrhain eu cynnydd tuag at gymwysterau. Mewn ychydig o sesiynau, roedd athrawon wedi gwella profiadau dysgu'n effeithiol drwy ddefnyddio byrddau gwyn digidol neu sgriniau i integreiddio gweithgareddau fideo

a rhyngweithiol. Mewn gwersi addysg, roedd sesiynau llawn wedi sicrhau ymgysylltu helaeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nid oedd dulliau addysgu ac adnoddau bob amser yn bodloni ystod anghenion a galluoedd carcharorion o fewn grwpiau addysgu, neu roedd disgwyliadau yn rhy isel. Roedd y llyfrynau gwaith printiedig yn brin o ddarluniau esboniadol ac, mewn achosion eraill, roedd ansawdd print gwael yn ei gwneud yn anodd gweld manylion pwysig mewn diagramau esboniadol. Mewn rhai achosion, roedd y ddarpariaeth yn rhy seiliedig ar lyfrynau, neu nid oedd athrawon yn adeiladu'r dysgu'n briodol i sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd cyson.

- 1.180 Mewn llawer o sesiynau, roedd athrawon a hyfforddwyr yn monitro cynnydd ac yn darparu arweiniad, cefnogaeth ac anogaeth un-i-un defnyddiol. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn effeithiol iawn. Roedd tiwtoriaid a mentoriaid cymheiriaid yn annog dysgwyr yn fedrus i wella safon eu gwaith a'u hagweddau at gyflogaeth y tu allan i'r carchar. Defnyddiodd llawer o athrawon gwestiynau effeithiol mewn sesiynau addysg i asesu gwybodaeth a gallu dysgwyr i gymhwyso dysgu blaenorol i gyd-destunau newydd. Fodd bynnag, nid oedd rhai yn defnyddio cwestiynau llafar yn ddigon da.
- 1.181 Roedd mentoriaid cymheiriaid yn ychwanegu gwerth sylweddol at ansawdd yr addysgu a'r cymorth sydd ar gael i garcharorion eraill. Buont yn gweithio ar sail un-i-un i helpu carcharorion i ddatblygu eu dealltwriaeth, yn ogystal â'u sgiliau ymarferol a llythrennedd.

### **Gofal, cefnogaeth ac arweiniad**

- 1.182 Cafodd pob newydd-ddyfodiad gyfle i gwblhau amrywiaeth o asesiadau i sefydlu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, yn ogystal â'u gwendidau penodol a'u hanghenion dysgu ychwanegol (ADY). Nid oedd y rhestr aros ar gyfer y rhain yn ormodol.
- 1.183 Roedd cyfweiliad cychwynnol gyda charcharorion newydd yn eu helpu i ddewis y cwrs neu'r opsiynau cyflogaeth gorau ar gyfer eu nodau yn y dyfodol. O ganlyniad, datblygodd carcharorion ddealltwriaeth gadarn o'r cyrsiau sydd ar gael yn y carchar a sut gallai hyn gefnogi eu bywydau yn y dyfodol.
- 1.184 Rhannwyd gwybodaeth o asesiadau gyda thiwtoriaid i'w galluogi i ymgorffori gwybodaeth bwysig ar sut i gefnogi dysgwyr yn eu cynlluniau dysgu unigol. Yn yr achosion gorau, defnyddiodd tiwtoriaid y wybodaeth hon i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cyrsiau'n llwyddiannus, er enghraifft drwy ddarparu adnoddau i wneud dysgu'n fwy hygyrch. Fodd bynnag, roedd gweithredu hyn ar draws pob sesiwn yn rhy amrywiol. I'r carcharorion hynny a oedd yn cael trafferth mynychu sesiynau addysg, roedd addysg allgymorth yn cael ei chynnig ar yr adain.
- 1.185 Rhoddodd y staff gefnogaeth ac arweiniad defnyddiol ar gamau nesaf carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Cafodd carcharorion gymorth ychwanegol gwerthfawr drwy'r hyb cyflogaeth, yn enwedig yn ystod eu 12 wythnos diwethaf yn y carchar. Yma, buont yn ymarfer profion gyrru theori, yn gwneud cais am swyddi neu'n cwblhau

cymwysterau perthnasol ar gyfer cyfleoedd gwaith yn y dyfodol. Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd cyfran y carcharorion a oedd mewn cyflogaeth chwe wythnos ar ôl eu rhyddhau wedi cynyddu o 10% i 26%.

- 1.186 Defnyddiodd y carchar gysylltiadau cadarnhaol gyda darparwyr eraill, megis cyflogwyr, Gyrfa Cymru, mudiadau gwirfoddol a'r Adran Gwaith a Phensiynau, i baratoi dysgwyr ar gyfer eu rhyddhau.
- 1.187 Roedd y sefydliadau hyn hefyd yn cynnig cymorth ymarferol i ddysgwyr. Er enghraifft, roeddent yn darparu dillad a chymorth i'r rheini a oedd yn gadael i gael mynediad at drafnidiaeth ar eu dyddiad rhyddhau. Roedd y carchar yn ategu'r cwricwlwm gyda digwyddiadau fel ffeiriau swyddi a digwyddiadau iechyd meddwl a llesiant. Roedd y digwyddiadau hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i garcharorion agored i niwed, fel pobl sy'n gadael gofal, ddatblygu sgiliau pwysig.
- 1.188 Roedd dysgwyr yn elwa o gyrsiau a oedd yn eu helpu i ddatblygu sgiliau ehangach ar gyfer bywyd, fel dysgu sut i wneud dewisiadau iach a meithrin perthnasoedd iach.
- 1.189 Yn gyffredinol, ymatebodd y staff yn gadarnhaol i'r ychydig broblemau ymddygiad a oedd yn tarfu ar sesiynau. Fodd bynnag, roedd ychydig o ddysgwyr wedi cael eu diarddel o addysg am eu presenoldeb gwael, gan gynnwys y rheini yn yr hyb niwroamrywiaeth.
- 1.190 Nod y ddarpariaeth niwroamrywiaeth sydd newydd ei sefydlu yw sicrhau bod carcharorion ag ADY yn cael cymorth i lwyddo ar draws pob agwedd ar fywyd carchar, er enghraifft, rhoi pennau darllen a gliniaduron i ddysgwyr. Fodd bynnag, roedd llawer o'r gwaith hwn newydd gael ei sefydlu ac roedd yn rhy fuan i werthuso ei effaith.

### **Arweinyddiaeth a rheoli**

- 1.191 Dangosodd yr uwch dîm a oedd yn gyfrifol am addysg, sgiliau a gweithgareddau gwaith weledigaeth strategol glir i gynnig cwricwlwm ystyrlon a gefnogir gan addysgu effeithiol. Roeddent yn defnyddio ystod eang o wybodaeth am nodweddion dysgu a llesiant carcharorion a gofynion y farchnad lafur yn briodol i ddylunio darpariaeth a oedd yn diwallu anghenion addysgol, cyflogadwyedd a datblygiad personol llawer o garcharorion.
- 1.192 Bu'r arweinwyr yn ymgysylltu'n dda ag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys crefftwyr medrus, cyflogwyr a mudiadau gwirfoddol, i wella'r cwricwlwm a chefnogi carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Roedd yr heriau diweddar o ganlyniad i'r adeiladau sy'n heneiddio wedi cyfyngu ar fynediad at yr ystod lawn o hyfforddiant galwedigaethol. Fodd bynnag, roedd arweinwyr wedi dangos ymrwymiad i gynnig cwricwlwm eang ac wedi blaenoriaethu'r meysydd hynny a oedd yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar gyflogaeth lwyddiannus ar ôl rhyddhau.

- 1.193 Arweiniodd y camau hyn at ddatblygu cwrwclwm a oedd yn cyfateb i anghenion llawer o garcharorion, a oedd yn adlewyrchu natur fyr eu dedfrydau'n dda ac a ddylanwadodd yn gadarnhaol ar eu dysgu, eu lles neu eu rhagolygon o ran cyflogaeth.
- 1.194 Defnyddiodd arweinwyr ystod eang o wybodaeth i werthuso a hysbysu eu darpariaeth, gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol gan ddysgwyr, data ac adolygiadau addysgu. Yn gyffredinol, roedd hunanarfarnu'n ddidwyll ac yn nodi meysydd pwysig i'w gwella. Nododd adolygiadau o addysgu nodweddion allweddol defnyddiol o ymarfer athrawon a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid oedd yr arsylwadau hyn yn gwerthuso'n ddigon da effaith arferion athrawon ar gynnydd dysgu carcharorion. Ni chafodd pob athro adborth priodol i wella ansawdd eu harferion addysgu. Er bod arweinwyr wedi defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth eang o ddata, gan gynnwys ar gynnydd grwpiau o ddysgwyr, yn rhy aml roedd data'n cael ei ddefnyddio i ddangos cynnydd yn hytrach na'i ddadansoddi i hysbysu hunanwerthuso, er enghraifft yr union resymau dros beidio â bod yn bresennol neu effaith sancsiynau ymddygiad. Defnyddiodd arweinwyr y cynllun datblygu ansawdd yn effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn gweithgareddau gwella. Fodd bynnag, roedd ystod eang o brosesau hunanwerthuso, ac mewn rhai achosion nid oedd y cysylltiad yn glir rhyngddynt a blaenoriaethu camau gweithredu, gan gynnwys dysgu proffesiynol.
- 1.195 Mae uwch arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar staff ar bob lefel, gan gyfrannu'n dda at eu dealltwriaeth o'r weledigaeth strategol ar gyfer addysg, sgiliau a gwaith. Fodd bynnag, roedd newidiadau mewn staffio, gan gynnwys newidiadau mynych mewn arweinyddiaeth ganol, yn golygu bod dealltwriaeth yr arweinwyr hyn o'u rolau yn amrywio, er enghraifft o ran sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Roedd y trefniadau goruchwyllo wedi newid hefyd. O ganlyniad, mewn rhai achosion nid oedd uwch arweinwyr bob amser yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar na'u heffaith ar ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys priodoldeb newidiadau diweddar i gynnwys y cwrwclwm.
- 1.196 Cafodd carcharorion eu dyrannu i weithgareddau'n brydlon, ond mewn rhai achosion nid oeddent wedi cael eu neilltuo i weithgareddau yr oeddent wedi dangos unrhyw ddiddordeb ynddynt, ac nid oedd y trefniadau dyrannu ar gyfer ychydig o feysydd addysg neu hyfforddiant yn ddigon teg na chlr.
- 1.197 Roedd ystod eang o ddysgu proffesiynol ar gael i athrawon a hyfforddwyr, a nodwyd drwy drefniadau rheoli perfformiad neu a gynlluniwyd i gefnogi blaenoriaethau datblygu cyfredol. Roedd rhai arweinwyr yn ymwneud â rhwydweithiau cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiynol gyda rhwydwaith o garchardai. Roedd cyfleoedd rheolaidd i rannu arferion yn fewnol.
- 1.198 Roedd y strategaeth ddarllen ar gyfer y carchar cyfan ar gam cynnar yn ei datblygiad ac roedd yn rhy gynnar i werthuso ei heffaith.

- 1.199 Cynhaliwyd fforwm i ganfod ffyrdd i'r carchar ddathlu diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Cymru, ond nid oedd unrhyw gyfleoedd ffurfiol i garcharorion ymarfer eu Cymraeg gydag eraill.

## Adran 6 Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau

Mae paratoi ar gyfer rhyddhau yn cael ei ddeall fel un o swyddogaethau craidd y carchar. Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

### Plant a theuluoedd a chyswllt â'r byd tu allan

Canlyniadau disgwylidig: Mae'r carchar yn deall pwysigrwydd cysylltiadau teuluol ar gyfer adsefydlu a lleihau'r risg o aildroseddu. Mae'r carchar yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyswllt carcharorion gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r carchar yn hwyluso rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau magu plant a sgiliau perthynas. Mae carcharorion nad ydynt yn cael ymweliadau yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd eraill i sefydlu neu i gynnal cefnogaeth deuluol.

- 1.200 Rhoddwyd cefnogaeth ragorol i garcharorion i'w helpu i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau. Roedd Waliau Anweledig Cymru (IWW), prosiect a ariennir gan y Loteri Fawr, wedi'i wreiddio'n llawn ar y safle, gan ddarparu amrywiaeth dda o waith ymgysylltu â theuluoedd a diwrnodau rheolaidd i'r teulu. Roeddent hefyd yn cefnogi carcharorion nad oeddent yn cael ymweliadau cymdeithasol a oedd yn faes a oedd yn aml yn cael ei anwybyddu.
- 1.201 Trefnwyd amrywiaeth eang o ddiwrnodau teulu gyda nifer dda yn eu mynychu, gyda 10 yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr adborth gan garcharorion a'u teuluoedd yn gadarnhaol. Roedd ymyriadau teuluol fel grŵp panda (i gefnogi tadau sydd â babanod newydd-anedig) a Schoolzone (sy'n cysylltu carcharorion ag athrawon eu plant yn yr ysgol) yn helpu tadau i fod yn rhan o ddysgu eu plant ac roeddent yn fentrau rhagorol. Roedd y ci PAT yn ased mewn ymweliadau, ac roedd yn treulio amser gyda carcharorion a oedd yn ei chael yn anodd ymdopi. Roedd prosiect Storybook Dads (carcharorion yn recordio straeon i'w hanfon at eu plant) yn ailgychwyn yn fuan ar ôl yr arolygiad hwn.



#### **Ci PAT**

- 1.202 Roedd ffonau ar gael i garcharorion yn eu celloedd ond, yn ein harolwg, dywedodd 87% o garcharorion eu bod yn gallu defnyddio ffôn bob dydd os oedd ganddynt gredyd, o'i gymharu â 94% mewn carchardai tebyg. Roedd galwadau fideo diogel (gweler yr Eirfa) yn dal i gael eu defnyddio'n rhy anfynych, gydag argaeledd wedi'i gyfyngu i oriau ysgol yn unig, ac nid oedd hynny'n helpu carcharorion â phlant.
- 1.203 Cynhaliwyd ymweliadau cymdeithasol bob dydd ac roedd trefnu hynny yn weddol syml. Roedd disgwyl i ganolfan ymwelwyr newydd, a oedd yn cynnig amgylchedd mwy eang a chroesawgar, agor ychydig wythnosau ar ôl ein harolygiad.
- 1.204 Roedd y neuadd ymweliadau yn lle tawel a disglair ac roedd man chwarae'r plant yn arbennig o dda. Roedd gweithwyr cymheiriaid yn helpu i gynnal y cyfleusterau lluniaeth a darparwyd amrywiaeth dda o fwyd a diod.



**Neuadd ymweliadau**



**Man chwarae i blant**

- 1.205 Gallai carcharorion nad ydynt yn cael ymweliadau cymdeithasol gymryd rhan mewn diwrnodau llesiant a gynhelir yn y neuadd ymweliadau. Roedd staff IWW yn hwyluso'r sesiynau a oedd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau i ymgysylltu â charcharorion a allai fod yn fwy ynysig. Roedd y carcharorion roedden ni wedi siarad â nhw yn gadarnhaol am y sesiynau hyn.

## Lleihau aildroseddu

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion yn cael cymorth i newid ymddygiad sy'n cyfrannu at droseddu. Mae staff yn helpu carcharorion i ddangos eu cynnydd.

- 1.206 Roedd bron i hanner y boblogaeth ar remand neu heb ddedfryd ac roedd 12% arall wedi cael eu galw'n ôl i'r carchar. Roedd hyn yn cyfrannu at drosiant sylweddol yn y boblogaeth gydag arosiadau byr iawn i lawer o garcharorion.
- 1.207 Roedd swyddi yn yr uned rheoli troseddwyd (OMU) bron wedi'u llenwi i gyd o ran grŵp rheolwr troseddwyd y carchar (POM). Roedd yr uwch swyddog prawf wedi bod yn ei swydd ers mis Gorffennaf 2022 ac roedd wedi sefydlu sesiynau goruchwyllo rheolaidd gyda Rheolwyr Troseddwyd yn y Carchar a oedd yn ddefnyddiol iddynt o ran datblygu eu sgiliau. Roedd systemau da ar gyfer rheoli perfformiad, fel 'cyfarfodydd tasgau' bob pythefnos i flaenoriaethu a goruchwyllo'r broses o gwblhau gwaith yn brydlon ac yn effeithiol.
- 1.208 Roedd gan Reolwyr Troseddwyd yn y Carchar lwyth achosion hawdd eu rheoli ac ychydig iawn o Reolwyr Troseddwyd yn y Carchar oedd yn cael eu hadleoli i ddyletswyddau gweithredol ar yr adeiniau. Roedd gan y rhai y bu i ni gwrdd â nhw lefel dda o wybodaeth am garcharorion yn eu llwyth achosion, a disgrifiodd y rhan fwyaf o garcharorion brofiad cadarnhaol o weithio gyda'u Rheolwr Troseddwyd yn y Carchar. Roedd y rhan fwyaf o garcharorion a ddedfrydwyd yn cael cyswllt rheolaidd, ond ychydig iawn o waith allweddol oedd yn cael ei wneud i gefnogi hyn (gweler paragraff 4.3).
- 1.209 Yng nghyfarfod cyntaf y Rheolwr Troseddwyd yn y Carchar gyda carcharor, roeddent yn darparu rhestr o becynnau gwaith mewn cell y gellid eu harchebu drwy'r adran addysg. Darparwyd y rhain gan Wasanaethau Addysg o Bell ac roeddent yn cynnwys pecynnau yn amrywio o rifedd a llythrennedd sylfaenol i waith cyflogadwyedd, rheolaeth ariannol ac ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol. Gwelsom garcharorion yn defnyddio'r deunyddiau hyn yn dda.
- 1.210 Adeg yr arolygiad, roedd y gwaith o gwblhau OASys (system asesu troseddwyd) yn gyfredol ac roedd yr OMU yn gweithio'n galed i gadw i fyny â hyn. Roedd yr OASys a adolygwyd gennym o ansawdd da, wedi'u hategu gan gynlluniau dedfrydu clir. Roedd llawer o garcharorion wedi elwa o gyfarfod gyda'u Rheolwr Troseddwyd yn y Carchar a'u rheolwr troseddwyd cymunedol (COM) cyn eu dyddiad rhyddhau i wneud cynlluniau a thrafod rheoli risgiau.
- 1.211 Cafodd rhyddhau carcharorion yn gynnar o dan gynllun HMPPS ei reoli'n dda ac roedd 102 o garcharorion wedi cael eu rhyddhau ers mis Hydref 2023. Roedd yr oruchwyliaeth wythnosol ar gyfer sgrinio addasrwydd yn gyson yn gadarn.

- 1.212 Roedd prosesau cyrffiw cyfyngu i'r cartref (HDC) yn cael eu rheoli'n dda ond roedd bron i draean o'r rhai y bernir eu bod yn addas yn cael eu rhyddhau ar ôl eu dyddiad cymhwysu cynharaf oherwydd diffyg llety addas yn y gymuned. Nid oedd carcharorion o dramor yn cael eu hystyried ar gyfer eu rhyddhau ar HDC na'u symud i garchardai agored os oedd y Swyddfa Gartref wedi methu â chadarnhau eu statws mewnfudo. Roedd hyn yn annheg.
- 1.213 Ychydig iawn o garcharorion categori D neu â dedfryd amhenodol a oedd yn cael eu cadw yng Nghaerdydd a chafodd y rhan fwyaf eu trosglwyddo'n gyflym i garchardai priodol, a oedd yn gadarnhaol.
- 1.214 Roedd y polisi lleihau aildroseddu yn gyfredol ac yn berthnasol, ond prin oedd y dadansoddi data, a oedd yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr nodi cynnydd neu welliannau yr oedd eu hangen. Nid oedd unrhyw ddata i ddangos canlyniadau tai cynaliadwy ar ôl rhyddhau.

## Diogelu'r cyhoedd

Canlyniadau disgwylidig: Mae risg carcharorion o achosi niwed difrifol i eraill yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau ymddygiad risg uchel o niwed.

- 1.215 Cadarnhawyd lefelau rheoli MAPPA (trefniadau amddiffyn y cyhoedd amlasiantaethol) chwe mis cyn eu rhyddhau ond nid oeddent bob amser yn cael eu cofnodi ar y dudalen rybuddion yn NOMIS (cofnodion y Gwasanaeth Carchardai). Roedd nifer dda yn bresennol yn y cyfarfod cyn-rhyddhau misol, gan gynnwys Rheolwyr Troseddwy Cymunedol. Roedd hyn yn galluogi cynllunio rheoli risg da a goruchwyllo carcharorion MAPPA risg uchel a risg uchel iawn sy'n nesáu at gael eu rhyddhau. Fodd bynnag, ni chafodd achosion eraill eu hadolygu'n ffurfiol yn y cyfarfodydd cyn-rhyddhau, a oedd yn hepgoriad.
- 1.216 Adeg ein harolygiad, roedd 13 o garcharorion yn destun monitro cyfathrebu. Roedd asesiadau risg ac adolygiadau i gymhwyso a chael gwared ar fonitro yn gadarn ac nid oedd unrhyw ôl-groniadau monitro. Fodd bynnag, nid oedd gan y staff a oedd yn monitro ddigon o hyfforddiant i adnabod yr ystod lawn o risgiau posibl.

## Ymyriadau a chymorth

Canlyniadau disgwylidig: Mae carcharorion yn gallu cael gafael ar gymorth ac ymyriadau sydd wedi'u dylunio i leihau aildroseddu a hyrwyddo adsefydlu effeithiol.

- 1.217 Fel carchar derbyn ac adsefydlu, nid oedd rhaglenni ymddygiad troseddol achrededig ar gael. Fodd bynnag, nid oedd anghenion ymddygiad troseddol y boblogaeth wedi cael eu dadansoddi ac, er gwaethaf nifer uchel o gyflawnwyr trais domestig, nid oedd yna waith strwythuredig yn canolbwyntio ar droseddau ar gyfer y carcharorion

hyn. Hefyd, nid oedd digon o gefnogaeth i helpu carcharorion i fynd i'r afael â'u profiadau eu hunain o drawma neu gam-drin blaenorol.

- 1.218 Roedd cynlluniau i gyflwyno'r rhaglen 'Dewisiadau a Newidiadau' i gefnogi oedolion ifanc, a oedd yn dda. Fodd bynnag, nid oedd Rheolwyr Troseddwy yn y Carchar yn darparu digon o waith sy'n canolbwyntio ar droseddau i helpu carcharorion eraill i newid eu hagweddau, eu meddyliau a'u hymddygiad, a lleihau'r tebygolrwydd o ailtdroseddu. Roedd gan arweinwyr gynlluniau i wella hyn.
- 1.219 Roedd cwrs cyn-rhyddhau a ddarparwyd gan yr hyb cyflogaeth ar gael dri mis cyn rhyddhau ac roedd yn cynnwys llawer o elfennau defnyddiol i ddod o hyd i waith ar ôl rhyddhau. Roedd nifer dda yn bresennol ac roedd y rhai y buom yn siarad â yn dweud ei fod yn ddefnyddiol.
- 1.220 Yn ystod y flwyddyn flaenorol, roedd 43% o garcharorion a ryddhawyd yn ddigartref neu lle dros dro yn unig oedd ganddynt i fynd iddo. Nid oedd y canlyniadau y tu hwnt i'r noson gyntaf ar ôl rhyddhau yn hysbys.

## Dychwelyd i'r gymuned

Canlyniadau disgwylidig: Mae anghenion ailintegreiddio penodol carcharorion yn cael eu diwallu drwy waith aml-asiantaeth da i gynyddu'r tebygolrwydd o adsefydlu'n llwyddiannus ar ôl rhyddhau.

- 1.221 Ar gyfartaledd, rhyddhawyd 125 o garcharorion bob mis ac roedd galw mawr am gymorth adsefydlu. Lluniodd tîm o swyddogion y gwasanaeth prawf gynlluniau adsefydlu ar gyfer pob carcharor ac roedd y rhai a adolygwyd gennym o ansawdd da. Darparwyd cymorth i sicrhau llety ar ôl rhyddhau gan y Forward Trust (sy'n galluogi pobl i dorri'r cylch troseddu a chreu dyfodol cynhyrchiol). Gallai carcharorion hefyd agor cyfrif banc, trefnu apwyntiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ddiwrnod eu rhyddhau a chael cymorth gan yr hyb cyflogaeth i ddod o hyd i waith. Cafodd carcharorion a oedd yn ymgysylltu â Dyfodol ar gyfer problemau defnyddio sylweddau apwyntiadau yn y gymuned i helpu gyda pharhad eu gofal ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
- 1.222 Nid oedd y model ar gyfer darparu gwasanaethau adsefydlu wedi'i gydlynu'n dda ac nid oedd y tîm cyn-rhyddhau yn y carchar wedi'i integreiddio â'r OMU. Roedd yn rhaid anfon atgyfeiriadau i'r Forward Trust am gymorth gyda llety ar ôl rhyddhau i'r swyddog prawf cymunedol i'w cymeradwyo cyn y gallai'r tîm yn y carchar ddarparu cymorth. Mewn llawer o achosion, dechreuwyd y gwaith o fynd i'r afael â phroblemau adsefydlu yn llawer rhy agos at y dyddiad rhyddhau i fod yn gwbl effeithiol.
- 1.223 Roedd y gefnogaeth ar y diwrnod rhyddhau yn gyfyngedig. Nid oedd carcharorion yn gallu gwefru eu ffôn symudol ac nid oedd canolfan y tu allan i'r carchar i garcharorion gael cymorth a chefnogaeth ymarferol. Roedd siop fach wedi'i stocio'n dda yn y carchar yn rhoi dillad ac esgidiau ail-law i garcharorion os oedd eu hangen arnynt. Rhoddwyd bag i garcharorion os oedd angen un arnynt i gario eu heiddo personol.

1.224 Ychydig iawn o gymorth drwy'r giât oedd ar gael.

## Adran 7 Cynnydd ar argymhellion yr adroddiad arolygu llawn diwethaf

### Argymhellion yr arolygiad llawn diwethaf

Dyma grynodeb o brif ganfyddiadau adroddiad yr arolygiad llawn diwethaf a rhestr o'r holl argymhellion a wnaed, a drefnwyd o dan y pedwar prawf ar gyfer carchar iach.

### Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2019 gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

### Argymhelliad allweddol

Dylai'r carchar ddadansoddi ei ddata a chanlyniad ei gyfweiliadau â charcharorion a oedd wedi hunan-niweidio i ganfod yr achosion sylfaenol.

Dylai ddatblygu strategaeth gyda chamau gweithredu sy'n rhwym wrth amser i fynd i'r afael â'r achosion hyn.

#### **Cyflawnwyd**

### Argymhellion

Dylai'r carchar ymchwilio i'r cynnydd yn y defnydd o rym a rhoi unrhyw gamau gofynnol ar waith.

#### **Cyflawnwyd**

Dylid gosod sganiwr corff a'i ddefnyddio i leihau'r cyflenwad o gyffuriau yn y carchar.

#### **Cyflawnwyd**

Dylid gwella cymorth i garcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio drwy ddefnyddio gweithdrefnau ACCT yn effeithiol a mwy o hyfforddiant i staff.

#### **Cyflawnwyd**

Dylai carcharorion allu siarad yn gyfrinachol â Gwrandawr ar unrhyw adeg a dylai pob carcharor gael mynediad at ffôn y Samariaid.

#### **Cyflawnwyd**

Dylai'r carchar sicrhau bod yr holl garcharorion ar uned B1 yn cael eu diogelu drwy gynnal asesiadau risg effeithiol a gweithredu unrhyw gamau gofynnol.

#### **Cyflawnwyd**

Dylai carcharorion sydd ar wahân gael mynediad at drefn weddus sy'n cynnwys ymweld â'r gampfa a chymryd rhan mewn gweithgareddau.  
**Heb ei gyflawni**

## **Parch**

**Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2019 gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## **Argymhellion allweddol**

Dylid edrych yn fanwl ar ymatebion negyddol carcharorion ag anabledd a charcharorion â phroblemau iechyd meddwl i weld a oes angen newid gwasanaethau. Dylid rhoi unrhyw newidiadau gofynnol ar waith.

### **Heb ei gyflawni**

Dylai gwasanaethau iechyd meddwl asesu anghenion carcharorion yn brydlon a darparu cymorth amserol drwy ystod briodol o ymyriadau therapiwtig.

### **Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai cleifion sy'n cael eu dadwenwyno o alcohol, a/neu sydd yn sefydlogi ar fethadon gael gofal priodol sy'n cynnwys mynediad brydlon at asesiadau amserol, cymorth a thriniaeth glinigol, monitro a chymorth parhaus drwy adolygiadau rheolaidd.

### **Cyflawnwyd**

## **Argymhellion**

Dylai'r carchar sicrhau bod pob cwyn yn cael ei hateb o fewn yr amserlenni gofynnol.

### **Heb ei gyflawni**

Dylai proses y ffurflen adrodd am ddigwyddiad gwahaniaethu (DIRF) ddarparu ffordd ddibynadwy i garcharorion fynegi materion sy'n peri pryder, a dylid delio â DIRFs yn brydlon a chraffu arnynt yn annibynnol.

### **Cyflawnwyd**

Dylai cleifion sydd â chyflyrau hirdymor, neu anghenion gofal cymhleth, gael gofal a chymorth cydgysylltiedig priodol sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

### **Heb ei gyflawni**

Dylid ehangu'r ystod o ymyriadau seicogymdeithasol i gynnwys darparu modiwlau gwaith grŵp yn gyson, cymorth ar y cyd a chefnogaeth gan gymheiriaid i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

### **Cyflawnwyd**

Dylai tîm y fferyllfa gael cymorth i oruchwylio'r gwaith o reoli meddyginiaethau a darparu mwy o wasanaethau ar gyfer cleifion, fel clinigau sy'n cael eu harwain gan fferyllfeydd, adolygiadau o'r defnydd o feddyginiaethau a sesiynau cwnsela.

**Cyflawnwyd**

Dylid rhoi meddyginiaethau ar adegau sy'n sicrhau'r effeithiolrwydd clinigol gorau yn hytrach na'u cyflenwi fel meddyginiaethau mewn meddiant dyddiol er mwyn cydymffurfio â threfn y carchar.

**Heb ei gyflawni**

Dylid rhoi mesurau diogelwch cadarn ar waith ar gyfer cludo meddyginiaethau o amgylch y carchar a dylid storio'r holl feddyginiaeth yn ddiogel nes ei bod yn cael ei rhoi i gleifion.

**Cyflawnwyd**

## **Gweithgarwch pwrpasol**

**Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2019 gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## **Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau**

**Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2019 gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

## **Argymhellion allweddol**

Dylid cwblhau dadansoddiad o anghenion i nodi pa ymyriadau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion yr holl garcharorion yng Nghaerdydd. Dylid rhoi unrhyw ymyriadau a nodwyd ar waith.

**Heb ei gyflawni**

Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod llety ar gael i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa.

**Heb ei gyflawni**

## **Argymhelliad**

Dylai'r tîm rheoli risg rhyngadrannol adolygu'r holl  
garcharorion risg uchel neu risg uchel iawn o niwed, cyn eu rhyddhau i sicrhau  
bod camau priodol yn cael eu cymryd  
a bod cyfyngiadau ar waith.

**Heb ei gyflawni**

# Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau

Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewn fudwyr, dalfa'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob arolygiad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw Mekanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r Mekanwaith Atal Cenedlaethol yn y DU.

Mae pob adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnwys crynodeb o sut mae carcharorion yn cael eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, yn seiliedig ar y pedwar prawf ar gyfer carchar iach a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn adolygiad thematig yr Arolygiaeth hon, *Suicide is everyone's concern*, a gyhoeddwyd yn 1999. Ar gyfer carchardai dynion, y profion yw:

## **Diogelwch**

Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.

## **Parch**

Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas.

## **Gweithgarwch pwrpasol**

Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.

## **Paratoi at ryddhau**

Mae paratoi ar gyfer rhyddhau yn cael ei ddeall fel un o swyddogaethau craidd y carchar. Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu a'u risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

O dan bob prawf, rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion ac felly perfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mae pedwar dyfarniad posib: mewn rhai achosion, bydd materion y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad yn effeithio ar y perfformiad hwn, ac mae angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) roi sylw iddynt.

### **Mae'r canlyniadau i garcharorion yn dda.**

Does dim tystiolaeth yr effeithir yn niweidiol ar ganlyniadau carcharorion andwyol mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

### **Mae'r canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda.**

Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i garcharorion mewn dim ond nifer fechan o feysydd. I'r mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau.

### **Nid yw'r canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.**

Mae tystiolaeth yr effeithir yn niweidiol ar ganlyniadau carcharorion mewn sawl maes, neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i les carcharorion. Mae problemau/pryderon, os na roddir sylw iddynt, yn debygol o ddod yn destun pryder difrifol.

### **Mae'r canlyniadau i garcharorion yn wael.**

Mae tystiolaeth yr effeithir yn ddifrifol ar ganlyniadau carcharorion gan arferion cyfredol. Methir â sicrhau hyd yn oed driniaeth a/neu amodau digonol ar gyfer carcharorion. Mae angen cymryd camau cywiro ar unwaith.

Gallai ein hasesiadau arwain at nodi **meysydd sy'n peri pryder**. Mae prif bryderon yn nodi'r meysydd lle mae gwendidau sylweddol yn y ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin a'r amodau ar eu cyfer. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd angen newid ymarfer a/neu adnoddau newydd neu adnoddau wedi'u hailgyfeirio. Pryderon blaenoriaeth yw'r rhai y mae'r arolygwyr yn credu sy'n fwyaf brys a phwysig ac y dylid rhoi sylw iddynt ar unwaith. Caiff y prif bryderon a'r pryderon blaenoriaeth eu crynhoi ar ddechrau adroddiadau arolygu ac mae corff yr adroddiad yn cyflwyno'r materion yn fwy manwl.

Rydym hefyd yn darparu enghreifftiau o **arferion cadarnhaol nodedig** yn ein hadroddiadau. Mae'r rhain yn rhestru arferion neu waith arloesol sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae'r Arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i garcharorion; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrth yr arfer neu ei ddyblygu.

Defnyddir pum ffynhonnell dystiolaeth allweddol gan arolygwyr: arsylwi; arolygon carcharorion a staff; trafodaethau â charcharorion; trafodaethau â staff a thrydydd partion perthnasol; a dogfennau. Yn ystod yr arolygiadau, rydym yn defnyddio dull cymysg o gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodolegau ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau wedi'i thriogli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae ein holl arolygiadau'n ddirybudd ac maent yn cynnwys dilyn argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Cynhelir arolygiadau o garchardai yng Nghymru ar y cyd ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r pryderon blaenoriaeth a'r prif bryderon yn dilyn yr arolygiad a'n barn am y pedwar prawf carchar iach. Yna, ceir pedair adran, pob un yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn erbyn ein Disgwyliadau. Meini prawf ar gyfer asesu'r driniaeth a'r amodau ar gyfer dynion mewn carchardai (Fersiwn 5, 2017) (ar gael ar ein gwefan yn <https://www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprison/our-expectations/prison-expectations/>). Mae Adran 7 yn rhestru argymhellion yr arolygiad llawn blaenorol (a'r ymweliad craffu lle bo hynny'n berthnasol), a'n hasesiad o a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio.

Mae canfyddiadau'r arolwg o garcharorion a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg ar gael ar ein gwefan (gweler Rhagor o adnoddau). Sylwch mai dim ond os yw'r rhain yn ystadegol arwyddocaol y byddwn yn cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau tebyg eraill neu arolygiadau blaenorol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond siawns o 1% sydd yna mai siawns sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth mewn canlyniadau.

## Y Tîm Arolygu

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan:

|                   |                                                 |
|-------------------|-------------------------------------------------|
| Martin Lomas      | Dirprwy Brif Arolygydd                          |
| Sandra Fieldhouse | Arweinydd Tîm                                   |
| Esra Sari         | Arolygydd                                       |
| Angela Johnson    | Arolygydd                                       |
| Paul Rowlands     | Arolygydd                                       |
| Fiona Shearlaw    | Arolygydd                                       |
| David Foot        | Arolygydd                                       |
| Martyn Griffiths  | Arolygydd                                       |
| Alexander Scragg  | Ymchwilydd                                      |
| Jasjeet Sohal     | Ymchwilydd                                      |
| Joe Simmonds      | Ymchwilydd                                      |
| Samantha Moses    | Ymchwilydd                                      |
| Tania Osborne     | Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol arweiniol |
| Paul Tarbuck      | Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol           |
| Mamta Arnott      | Arolygydd Estyn                                 |
| Sion Peters-Flynn | Arolygydd Estyn                                 |
| Rachel Hackling   | Arolygydd Estyn                                 |
| John Powell       | Arolygydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru        |
| Lindsey Woodford  | Arolygydd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol        |

## Atodiad II Geirfa

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws. Os bydd angen eglurhad arnoch o unrhyw dermau eraill, edrychwch ar y rhestr dermau hirach sydd ar gael ar ein gwefan yn:

<http://www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprison/about-our-inspections/>

### **Llety arferol ardystiedig (CNA) a chapasiti gweithredol**

CNA sylfaenol yw cyfanswm yr holl le byw ardystiedig mewn sefydliad, ac eithrio celloedd mewn unedau gwahanu, celloedd gofal iechyd neu ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer cleifion arhosiad hir. CNA sy'n cael eu defnyddio yw'r CNA sylfaenol heb gynnwys y llefydd hynny nad ydynt ar gael i'w defnyddio'n syth, fel celloedd sydd wedi'u difrodi, celloedd y mae gwaith adeiladu yn effeithio arnynt, a chelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd prinder staff. Capasiti gweithredol yw cyfanswm y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb beri risg difrifol i drefn dda, i ddiogelwch ac i redeg y weithdrefn a gynlluniwyd yn briodol.

### **Cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP)**

Caiff ei ddefnyddio gan bob carchar i oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Rheolir a chefnogir y carcharorion hyn gyda chynllun sydd â thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw achos pawb sy'n dreisgar yn cael ei reoli ar CSIP. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trais.

### **Diwrnodau teulu**

Mae llawer o garchardai, yn ogystal ag ymweliadau arferol, yn trefnu 'diwrnodau teulu' drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain fel arfer yn agored i bob carcharor sydd â phlant bach, wyrion, neu berthnasau ifanc eraill.

### **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

Rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n arolygu gwasanaethau'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn ystod o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau i dynnu sylw at feysydd sydd angen eu gwella.

### **Byw heb sylweddau dan gymhelliant (ISFL)**

Adain i'r rheini sy'n dymuno parhau i fyw heb gyffuriau. Yn aml, mae angen profion cyffuriau rheolaidd ac mae'n cynnig manteision ychwanegol i ysgogi adferiad parhaus.

### **Cynllun gweithiwr allweddol**

Mae'r cynllun gweithiwr allweddol yn gweithredu ar draws yr ystâd gaeedig i ddynion ac mae'n un elfen o'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Mae gan bob swyddog carchar lwyth achosion o tua chwe charcharor. Y nod yw galluogi staff i ddatblygu perthynas adeiladol, ysgogol â charcharorion, sy'n gallu eu cefnogi a'u hannog i weithio tuag at nodau adsefydlu cadarnhaol.

## **Arweinydd**

Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn y system garchardai. Byddwn yn cyfeirio ein naratif ar lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r capasiti mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

## **MAPPA**

Trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaeth: y set o drefniadau y mae'r heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai yn eu defnyddio i weithio gydag asiantaethau eraill i reoli'r risgiau a berir gan droseddwyd treisgar, rhywiol a therfysgol sy'n byw yn y gymuned, er mwyn amddiffyn y cyhoedd.

## **Nodweddion gwarchodedig**

Seiliau camwahaniaethu anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

## **Amddiffyn oedolion sydd mewn perygl**

Mae dyletswyddau diogelu yn berthnasol i oedolyn:

- sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio); ac
- sydd yn cael, neu mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso; ac
- o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag naill ai'r risg o gam-drin ac esgeuluso, neu'r profiad o hynny (Deddf Gofal 2014).

## **Galwadau fideo diogel**

System a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) sy'n mynnu bod defnyddwyr yn lawrlwytho ap i'w ffôn neu eu cyfrifiadur. Cyn bod modd trefnu galwad, rhaid i ddefnyddwyr lwytho ID dilys.

## **Pecyn gofal cymdeithasol**

Lefel o ofal personol i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd yn dilyn asesiad o anghenion cymdeithasol a wnaed gan yr awdurdod lleol (hynny yw, cymorth gydag ymolchi, mynd i'r bath/cawod, mynd i'r toiled, gweithgareddau byw bob dydd ayb, ond nid gofal meddygol).

## **Amser allan o'r gell**

Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgarwch pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd carcharorion allan o'u celloedd er mwyn cymdeithasu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

## Atodiad III Rhagor o adnoddau

Mae rhai adnoddau eraill y dylid eu darllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF (maent hefyd yn ymddangos yn yr adroddiadau wedi'u hargraffu a ddosberthir i'r carchar). Dyma'r adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn:

### Proffil poblogaeth carchardai

Gofynnwn am broffil poblogaeth o bob carchar fel rhan o'r wybodaeth a gasglwn yn ystod ein harolygiad. Rydym wedi cyhoeddi'r dadansoddiad hwn ar ein gwefan.

### Methodoleg a chanlyniadau'r arolwg o garcharorion

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o'r carcharorion ar ddechrau pob arolygiad, ac mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad. Mae dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg, yr arolwg a'r dogfennau cymharu sydd yn dangos canlyniadau'r arolwg, yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

### Arolwg staff carchardai

Gwahoddir staff y carchar i lenwi arolwg staff. Cyhoeddir y canlyniadau ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

## Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: [hmiprison.enquiries@hmiprison.gsi.gov.uk](mailto:hmiprison.enquiries@hmiprison.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho oddi ar y we yn: <http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprison/>

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Carchardai EF

3rd floor

10 South Colonnade

Canary Wharf

Llundain

E14 4PU

England

Pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.